

Gwneud Gwahaniaeth

Sicrhau canlyniadau da i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru

Mehefin 2013



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 0 7504 9570 7

ISBN digidol 978 0 7504 9569 1

© Hawlfraint y Goron 2013

WG18828

Cynnwys

Rhagarweiniad	2
Pennod 1: Ansawdd y Canlyniadau	4
Pennod 2: Ansawdd yr Asesiadau	8
Pennod 3: Ansawdd Ymyriadau Gwaith Cymdeithasol	10
Pennod 4: Ansawdd Cynllunio ac Adolygu Gofal	14
Pennod 5: Ansawdd y Gwasanaethau	16
Pennod 6: Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth	19

Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio canfyddiadau adolygiad o'r gwasanaethau ar gyfer plant mewn angen yng Nghymru a gynhaliwyd gan AGGCC yn 2012-13.

Yn y pedair blynedd ar ddeg ddiwethaf mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi codi o 2991 ym 1998 i 5725 yn 2012. Mae'r twf hwn yn gosod nifer o heriau ac yn achosi cryn benbleth, nid lleiaf o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yn erbyn cefndir o adnoddau sy'n prinhaus. Yn ystod yr un cyfnod yn Lloegr, cododd nifer y plant sy'n derbyn gofal o 53,300 i 67,050. Ym 1998, y gyfradd fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18 mlwydd oedd 45 yng Nghymru a 47 yn Lloegr. O gymharu, yn 2012, yng Nghymru mae wedi codi i 91 o gymharu â 59 fesul 10,000 yn Lloegr. Mae'r gyfradd fesul Awdurdod Lleol yn amrywio ledled Cymru o 54 i 167 fesul 10,000 o'r boblogaeth. Er gwaethaf nifer o fentrau newydd dros y degawd diwethaf, parhaodd y cynnydd yn nghyfradd y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Dengys Cyfrifiad y Plant mewn Angen fod plant mewn angen yn cael canlyniadau gwaelach o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol a hefyd o'u cymharu â'r plant sy'n derbyn gofal. Roedd cyrhaeddiad addysgol plant mewn angen yn is na chyrhaeddiad plant yn y boblogaeth gyffredinol a phlant sy'n derbyn gofal ar bob mesuriad cyfnod allweddol. Yn yr un modd, wrth eu cymharu o ran archwiliadau goruchwyliaeth iechyd, archwiliadau deintyddol ac imiwneiddiadau, roedd y canlyniadau'n waelach i blant mewn angen.

Adroddai'r Cyfrifiad fod yna 20,240 o blant mewn angen ar 31 Mawrth 2012, sef cyfradd o 320 ym mhob 10,000 o blant dan 18 mlwydd oed. O'r plant yma, cafodd mwy na thraean (36 y cant) eu hatgyfeirio gan adrannau awdurdodau lleol a 29 y cant pellach gan yr heddlu a gwasanaethau iechyd cychwynnol neu gymunedol, ac roedd gan chwarter (25 y cant) y plant mewn angen anabledd. Rhieni'n camddefnyddio sylweddau neu alcohol a chamdriniaeth ddomestig oedd y ffactorau gallu magu plant a gofnodwyd fwyaf aml.

Gyda rhwng 45,000 a 50,000 o blant yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol bob blwyddyn (y mae oddeutu eu hanner yn cyrraedd y trothwy ar gyfer asesiad), y cynnydd parhaus yn niferoedd y plant sy'n derbyn gofal ynghyd â'r canlyniadau gwael i blant mewn angen, mae'r heriau o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru yn sylweddol.

Mae'n hanfodol cael gwybod, o safbwynt gallu cynnal y gwasanaethau yn y dyfodol, a yw'r polisïau a'r mentrau presennol yn cael yr effaith a ddymunir o wella'r canlyniadau i blant, a chefnogi teuluoedd i ofalu am eu plant, ac ar yr un pryd yn lleihau nifer y plant sydd angen derbyn gofal.

Yn erbyn y cefndir hwn cynhaliodd AGGCC yr adolygiad yma gyda'r nod o ddarganfod beth sy'n gwneud gwahaniaeth o ran gweithio gyda phlant mewn angen a'u teuluoedd. Canolbwyntiodd yr adolygiad yma ar ansawdd ymyriadau ac ymarfer gwaith cymdeithasol gyda phlant a'u teuluoedd ac mae'n edrych ar yr ymyriadau a'r gwasanaethau sy'n llwyddo i sicrhau canlyniadau da i blant a'u teuluoedd.

Y Casgliadau Cyffredinol

Ansawdd y Canlyniadau

- Mae gwneud penderfyniadau da yn fuan, ar sail asesiadau gwybodus sydd wedi eu dadansoddi'n dda, yn hollbwysig i gyflawni canlyniadau diogelwch i blant a phobl ifanc.
- Nid oes digon o gydlynw amlasiantaethol nac ymrwymiad strategol i wella canlyniadau addysg ac iechyd i blant mewn angen. Canlyniad hyn yw bod plant mewn angen yn cael canlyniadau addysg ac iechyd gwaelach na phlant sy'n derbyn gofal, y mae eu haddysg a'u hiechyd yn ddarostyngedig i arweiniad statudol.
- Nid yw llais y plentyn yn cael ei glywed yn gyson gan ymarferwyr ar draws Cymru, a chanlyniadau hyn yw ansawdd bywyd gwael.

Ansawdd yr Asesiadau

- Roedd yna dystiolaeth i gefnogi'r farn fod mwy o risg i blant, pan fydd staff heb gymwysterau yn cynnal yr asesiadau cychwynnol ac yn gwneud y penderfyniadau cynnar ar y rheng flaen.

- Ceid tystiolaeth o benderfyniadau'n cael eu gwneud ac asesiadau cychwynnol yn cael eu cwblhau heb dalu ymweliad cynhwysfawr â'r plentyn a'i deulu. Cyfrannodd hyn at ansawdd gwael asesiadau a mwy o risg i blant.
- Mae ymarferwyr gwaith cymdeithasol ac arweinwyr awdurdodau lleol o blaid cadw'r fframiau amser ar gyfer cynnal a chwblhau asesiadau, er bod barn broffesiynol a hyblygrwydd hefyd o'r pwys mwyaf.
- Mae gweithwyr proffesiynol yn falch iawn o'r canllawiau a'r fframiau amser o fewn y system amddiffyn plant bresennol ar gyfer rheoli risg a sicrhau canlyniadau diogelwch.

Ansawdd Ymyriadau Gwaith Cymdeithasol

- Roedd mwyafrif y plant a'r teuluoedd yn adrodd eu bod wedi profi perthynas o ansawdd gwael gyda gweithwyr cymdeithasol.
- Galwodd gweithwyr cymdeithasol yn daer am yr amser a'r sgiliau i wella ansawdd eu perthynas gyda phlant a theuluoedd.
- Mae ansawdd y berthynas rhwng y gweithiwr cymdeithasol a'r plant a'u teulu yn ffactor o bwys o ran cyfrannu at sicrhau canlyniadau da.
- Dylid ystyried datblygu "pecyn offer" cenedlaethol, seiliedig ar dystiolaeth, i ymarferwyr fedru ei ddefnyddio wrth weithio gyda phlant a theuluoedd.
- Mae gweithio gyda theuluoedd, sy'n wrthwynebus i newid, yn gofyn am ymarferwyr medrus, cymwys a hyderus. Roedd yna farn gref fod angen cryfhau sylfaen sgiliau ymarferwyr gwaith cymdeithasol.

Ansawdd Cynllunio ac Adolygu Gofal

- Mae angen cyfleu llais y plentyn yn well mewn asesiadau ac wrth gynllunio gofal ledled Cymru a byddai ymarferwyr gwaith cymdeithasol yn elwa o ddatblygu sgiliau ar gyfer ymgysylltu â phlant.

- Mae canlyniadau'n debycach o gael eu sicrhau lle mae'r ymarferwyr yn gweithio ar y cyd gyda phlant a'u teuluoedd i lunio ac i adolygu'r cynllun gofal.
- Roedd ymarferwyr yn croesawu'r fframiau amser rheoleiddiol ar gyfer cynllunio ac adolygu achosion, er bod y dystiolaeth yn dangos yr angen i ymarfer barn broffesiynol er mwyn medru sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant.

Ansawdd y Gwasanaethau

- Mae angen cyd-drefnu'r gwasanaethau a gomisiynir ar lefel strategol mewn awdurdodau lleol ac mae angen symleiddio'r prosesau atgyfeirio er mwyn lleihau biwrocratiaeth a sicrhau mynediad cynt at wasanaethau.
- Rhaid comisiynu gwasanaethau ar sail asesiadau cadarn o'r anghenion lleol a rhanbarthol; a rhaid gwerthuso pa mor effeithiol ydynt ar sail y canlyniadau a sicrhawyd ac nid ar allbynnau gwasanaeth yn unig.

Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth

- Mae strategaethau gweithlu, sy'n arwain at welliannau yn sgiliau gweithlu'r gwaith cymdeithasol ac sy'n fodd i gadw gweithwyr cymdeithasol profiadol mewn gwaith rheng flaen, yn allweddol i gynorthwyo teuluoedd i ofalu am eu plant.
- Mae rheoli a mesur perfformiad ac ansawdd yn gwella yng ngwasanaethau cymdeithasol plant yng Nghymru. Fodd bynnag, ni fydd ansawdd ymarfer gwaith cymdeithasol yn gwella ond os bydd gweithgareddau rheoli ansawdd yn cael eu datblygu ymhellach a'u cyd-drefnu'n well.
- Er mwyn dod â gwelliannau cynaliadwy i fywydau plant mae'n rhaid i blant a phobl ifanc gael chwarae mwy o ran yn y penderfyniadau a wneir ar bob lefel wrth ddarparu'r gwasanaeth.

1. Ansawdd y Canlyniadau

Trosolwg

Canolbwyntiai'r adolygiad hwn ar ganlyniadau, gyda golwg ar ddiogelwch, iechyd, addysg ac ansawdd bywyd i blant mewn angen (gweler Atodiad A), a beth sy'n gymorth neu'n rhwystr rhag eu sicrhau. Canfu'r adolygiad fod y canllaw amddiffyn plant, a'r graddfeydd amser rhagnodedig ar gyfer ymyrryd, yn allweddol ac yn cael eu gwerthfawrogi gan ymarferwyr o ran sicrhau gweithredu ac ymyrryd mewn pryd i ddiogelu plant.

Mae plant sy'n derbyn gofal yn destun gofynion a chanllawiau penodol o ran eu gofal iechyd a'u haddysg, a'r ffactor allweddol gyda golwg ar wella eu canlyniadau iechyd ac addysg yw'r gefnogaeth ychwanegol a'r ymyriad gan yr ysgolion a'r adran gwasanaethau cymdeithasol. Yr her o wella'r canlyniadau i blant mewn angen yw sicrhau'r gefnogaeth a'r gwasanaethau amlasiantaethol angenrheidiol. Gydag ychydig o eithriadau, mynegodd y bobl ifanc yn yr arolwg welliant yn ansawdd cyffredinol eu bywydau ar ôl i'r gwasanaethau cymdeithasol ymyrryd.

Archwiliodd yr adolygiad hefyd y rhesymau posibl am y cynnydd yn y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Dywedai mwyafrif yr awdurdodau lleol yn yr arolwg (15) eu bod yn disgwyl i nifer y plant sy'n derbyn gofal gynyddu yn y dyfodol agos. Disgwyliai gweddill yr atebwyr, gan mwyaf, i'r nifer aros yn sefydlog, gyda dau yn unig yn disgwyl gostyngiad. Roedd y rhan fwyaf o'r uwch reolwyr yn awyddus i bwysleisio bod y rhesymau dros y cynnydd ym mhoblogaeth y plant oedd yn derbyn gofal yn gymhleth ac amrywiol, ac roedd nifer wedi comisiynu ymchwil i gael dealltwriaeth o'r ffactorau oedd yn neilltuo i'w hawdurdodau lleol hwy. Cafodd datblygu strategaethau ar gyfer gwasanaethau ataliol a mentrau megis Tîm o Gwmpas y Teulu, monitro a chraffu ar boblogaeth y plant sy'n derbyn gofal a chanolbwyntio ar drefniadau gofal gwahanol, megis gofal perthynas a gorchmynion gwarcheidwaeth arbennig, i gyd eu dyfynnu gan reolwyr fel ffyrdd o sicrhau canlyniadau da i blant tra'n rheoli nifer y plant sy'n derbyn gofal. Roedd strategaethau gweithlu i wella sgiliau gweithwyr cymdeithasol, rheoli swyddi gweigion

yn effeithiol a strategaethau i annog gweithwyr cymdeithasol profiadol i aros ar y rheng flaen hefyd yn cael eu hystyried yn hanfodol.

1.1. Dengys y dystiolaeth mai canlyniadau diogelwch i blant sy'n tueddu i fod yn brif ganolbwynt ymyriadau gwaith cymdeithasol. Y prif rwystrau rhag sicrhau canlyniadau diogelwch oedd methiant i ddilyn canllawiau amddiffyn plant, peidio ag ymyrryd mewn pryd neu wneud penderfyniadau gwael. Lle y digwyddai hyn, roedd yn bennaf yn ganlyniad arweinyddiaeth a rheolaeth wael, pwysau beichiau gwaith neu, ar adegau, gamgymeriadau pobl. Dywedai plant a phobl ifanc, y siaradwyd â hwy yn ystod yr adolygiad, nad oeddent bob amser yn cael yr amser i adeiladu perthynas o ymddiriedaeth gyda'u gweithiwr cymdeithasol neu fod y berthynas wael rhwng y teulu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn llesteirio canlyniadau diogelwch i'r plant. Ar adegau eraill, dywedai plant eu bod yn teimlo bod y digwyddiadau o'u cwmpas yn eu drysu ac nad oeddent yn sicr pryd y gallent gael cymorth.

“Ar un pwynt roeddwn i'n meddwl ei fod o'n mynd i ladd Mam, ac roeddwn i'n meddwl y buasai'n well gen i iddo fy lladd i, achos na fedrwn i ddim magu'r plant heb help, felly mi oeddwn i'n meddwl y buasai'n well gen i iddo gymryd y peth allan arna i nag ar Mam. Mi wnes i ddeud hynny wrth y gweithwyr cymdeithasol ac fe ddywedon nhw wrtha i am beidio â rhoi fy hun mewn perygl a'u bod nhw'n gweithio tuag at 'bwynt ffocws'!”

Person Ifanc

Yn y rhan fwyaf o'r achosion a ystyriwyd yn yr adolygiad, cafodd y plant eu diogelu, weithiau oherwydd iddynt yn y pen draw ddod yn blant oedd yn derbyn gofal:

“Mae cael eich cymryd i mewn i ofal yn medru bod yn sioc fawr ... pan fydd plentyn yn ganol y sefyllfa, dydych chi ddim yn meddwl am y peryglon nag am yr effeithiau na dim, achos i chi mae'r peth yn normal. Dim ond pan fyddwch chi'n dweud wrth rhywun beth sydd wedi digwydd ac mae'r

person yna'n darllen y peth yn ôl i chi y mae'r peth yn suddo i mewn 'fi ydy hwn go iawn?' ”

Person Ifanc

1.2. Canfu'r Adolygiad fod y canlyniadau iechyd i blant mewn angen dan 5 mlwydd oed wedi eu nodi'n gyffredinol yn y cynllun gofal ac yn fwy tebygol o gael eu gwireddu gan fod Ymwelydd Iechyd yn cael ei ddyrannu i'r grŵp hwn o blant. Fodd bynnag, tueddai anghenion iechyd plant hŷn i beidio â chael eu cofnodi gystal yng nghynllun y plentyn mewn angen. Felly, heb fewnbwn gan weithiwr iechyd proffesiynol arweiniol, mae anghenion iechyd plant yn tueddu i fynd yn angof gan weithwyr cymdeithasol. Gall hyn effeithio ar sicrhau canlyniadau iechyd da, yn enwedig os mai esgeulustod yw'r brif broblem. Byddai cryfhau cydweithrediad a chyfraniadau amlasiantaethol at asesiadau a chynllunio gofal yn gymorth i wella canlyniadau iechyd.

1.3. Mae Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru'n tynnu sylw at y ffaith fod canlyniadau a chyraeddiadau addysgol plant mewn angen yn is na rhai plant sy'n derbyn gofal. Ffactor allweddol i blant gyflawni'n dda'n addysgol yw cefnogaeth rhieni a'u diddordeb yn addysg eu plentyn ynghyd â chymorth i wneud eu gwaith cartref ac astudio'n breifat gartref. Fodd bynnag, mae rhieni sy'n dioddef o bethau sy'n rhwystro'u gallu i fagu eu plant, megis trais domestig, iselder neu gamddefnyddio sylweddau, yn llai tebygol o roi'r gefnogaeth angenrheidiol neu gymryd diddordeb yn addysg eu plentyn. Yn yr un modd, nid yw cartref sy'n cael ei nodweddu gan drais, camdriniaeth neu esgeulustod yn amgylchedd ffafriol sy'n cefnogi a meithrin dysg y plentyn. Yn yr awdurdodau lleol, lle nad oedd y gwasanaethau wedi eu cydgysylltu, roedd tuedd i adrannau addysg ddibynnu ar y gwasanaethau cymdeithasol i ddatrys y problemau o fewn y cartref. Mae datrys problemau teuluol cymhleth yn galw am ddull amlasiantaethol, cydlynol, ac mae angen mwy o bwyslais ar wella addysg y plentyn os yw i gyflawni ei wir botensial. Gwelodd yr adolygiad rai enghreifftiau da iawn o ganlyniadau addysgol plant mewn angen, plant oedd yn derbyn gofal a rhai oedd yn gadael gofal. Roedd gan lawer o'r rhain amgylchiadau cartref anodd iawn neu roeddent wedi dod drwy ddigwyddiadau trawmatig iawn. Mae'r plant yma

wedi llwyddo i ennill canlyniadau TGAU a Lefel A da iawn, gyda rhai yn astudio yn y brifysgol, gan gynnwys cyrsiau Meistr a PhD. Roedd clybiau gwaith cartref, hyfforddiant ychwanegol, cynllunio adolygu, rheoli ymddygiad yn gadarnhaol, i gyd wedi cyfrannu at ganlyniadau addysgol da. Roedd ymroddiad yr ysgol a'r berthynas gyda'r gweithiwr cymdeithasol yn hollbwysig, fel yr oedd pwysigrwydd adeiladu hunanhyder a dyheadau'r plant.

“ Rydym ni'n cael uchelgais drostynt hyd nes y byddant yn medru cael eu huchelgais eu hunain. ”

Rheolwr Tîm Plant sy'n Gadael Gofal

Ar lefel strategol, mae un awdurdod lleol yn ceisio gwella canlyniadau addysgol drwy ymestyn cyfrifoldebau rhianta corfforaethol cynghorwyr i blant ar y gofrestr amddiffyn plant. Canlyniad hyn fu gosod pwyslais corfforaethol ar wella canlyniadau addysgol yr holl blant mewn angen. Mae awdurdod lleol arall yn datblygu asesiad plant agored i niwed o fewn ei adran addysg er mwyn canfod y plant sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar, gyda'r disgwyliad y bydd hyn yn arwain at well cyrhaeddiad.

1.4. Casglwyd y dystiolaeth ynghylch canlyniadau ansawdd bywyd yn bennaf o sylwadau plant a phobl ifanc. Er y gall dealltwriaeth pobl ifanc o'r gwasanaethau a'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn fod yn unochrog, hwy sy'n gwybod orau am lefelau eu hapusrwydd hwy eu hunain. Fel gyda'r canlyniadau eraill, roedd yn haws canfod y dystiolaeth gyda phlant sy'n derbyn gofal nag yr oedd gyda phlant mewn angen. Mewn rhai achosion, câi canlyniadau ansawdd bywyd eu sicrhau drwy'r gweithgareddau allgyrsiol a gâi eu cyllido gan yr awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn adeiladu hunanbarch a hyder ac mae gweithgareddau corfforol hefyd yn adeiladu ac yn adfer "hapusrwydd" ac yn gwella lles emosiynol.

1.5. Mae gwasanaethau i gefnogi unigolion, sydd wedi dioddef camdriniaeth rywiol a chamdriniaeth ddomestig, yn tueddu i gael eu darparu gan wasanaethau a gomisiynir, e.e. NSPCC neu Gymorth i Ferched. Fodd bynnag, nid yw'r cwnsela arbenigol, na'r gwasanaethau lles emosiynol a

ddarperir, yn gyson ar draws Cymru. Mae effeithiau'r aflonyddwch emosiynol, y mae'r plentyn yn ei ddioddef, yn aml yn cael eu teimlo gan yr ysgol, yn ffurf ymddygiad gwael neu chwarae triwant. Yn dibynnu ar ymateb yr ysgol, gall hyn gael effaith negyddol bellach ar y canlyniadau addysgol.

1.6. Lle y cymerir barn neu safbwynt y plentyn i ystyriaeth, mae'r canlyniadau a geir yn fwy tebygol o fod yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae hyn yn arbennig o wir am blant hŷn, y mae eu cydweithrediad yn bwysig os am sylweddoli amcan y cynlluniau. Hyd yn oed gyda phlant iau, mae pwysigrwydd deall persbectif y plentyn o'r pwys mwyaf i sicrhau'r canlyniadau cywir.

Mewn un enghraifft, cafodd cynllun i gymryd babi i ffwrdd ar ei genedigaeth, oherwydd bod ei mam yn camddefnyddio sylweddau'n ddifrifol, ei newid, pan wnaeth y gweithiwr cymdeithasol asesu'r cwlwm yr oedd y babi wedi ei ffurfio gyda'i mam yn fuan ar ôl ei geni. Fe wnaeth penderfyniad ac ymroddiad y gweithiwr cymdeithasol i sylweddoli amcanion cynllun cymhleth iawn, sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r babi, gan ei bod yn dal gyda'i mam ac yn derbyn gofal da 2 flynedd yn ddiweddarach. Yr allwedd i sicrhau'r canlyniadau yn yr achos hwn oedd gwerthfawrogiad llawn o bersbectif y plentyn.

1.7. Er bod yr Adolygiad wedi gweld ei bod yn bosibl sicrhau canlyniadau diogelwch i blant heb gael dealltwriaeth lawn o bersbectif y plentyn, roedd yr achosion hyn yn aml yn gysylltiedig â chanlyniadau gwael o ran addysg ac ansawdd bywyd. I grynhoi, gall gweithwyr cymdeithasol wneud plant yn ddiogel heb glywed eu llais, ond mae'n llai tebygol y bydd y plentyn yn hapus neu'n cyflawni'n dda yn yr ysgol. Y prif rwystr a nodwyd gan ymarferwyr, ar ffordd sicrhau a deall barn plant, yw'r amser sydd ar gael i ymgysylltu'n effeithiol â phlant. Nododd ymarferwyr fwlch yn eu sgiliau o ran ymgysylltu a dod i wybod beth oedd dymuniadau a theimladau plant ifanc iawn. Yn yr awdurdodau lleol, lle mae'r sgiliau hyn wedi cael eu datblygu, roedd gwahaniaeth nodedig yn ansawdd y canlyniadau i blant a theuluoedd.

1.8. Cynigiai rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol amrywiol esboniadau posibl am y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Tlodi ac amddifadedd oedd y ffactorau a ddyfynnid amlaf. Mae'r dirwasgiad,

alcohol rhad, mynediad rhwydd at gyffuriau anghyfreithlon, mynediad at bornograffi plant drwy gyfrwng y rhynggrwyd, gostyngiad mewn budd-dal tai, diffyg cyfleoedd gwaith a phrinder tai fforddiadwy ar draws y wlad, yn enwedig i bobl ifanc, i gyd yn ffactorau sy'n cael effaith ar y ffordd y mae teuluoedd yn gweithredu. Roedd yna farn gref y gallai'r newidiadau, yr oedd Llywodraeth y DU yn bwriadu eu gwneud i'r System Les, arwain at gynnydd mewn digartrefedd, caledi a thensiynau o fewn teuluoedd. Gallai hyn arwain at lefelau uwch o gamddefnyddio sylweddau, trais domestig a chynnydd mewn problemau iechyd meddwl. Gallai hyn yn ei dro gynyddu'r lefelau o risg i blant.

1.9. Dywedai rheolwyr ei bod yn annhebygol mai amddifadedd fyddai'n esbonio'r cynyddiadau cyflym iawn 'o fewn blwyddyn' yn nifer y plant mewn gofal. Awgryment y gellid cysylltu hyn yn hytrach gyda newid mewn arweinyddiaeth a rheolaeth o fewn sefydliad neu bryder sefydliadol ynghylch rheoli risg. Roedd pryder neilltuol ynghylch y pwysau o safbwynt arian ac adnoddau a all ddod ar yr holl asiantaethau, fydd yn effeithio yn y dyfodol ar effeithiolrwydd y gweithio amlasiantaethol, sy'n allweddol i gadw plant yn ddiogel gartref. Yn gysylltiedig â hyn, mae peth tystiolaeth ystadegol sy'n awgrymu, lle mae gwasanaethau ataliol megis Dechrau'n Deg wedi ymsefydlu, bod cynnydd yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant. Efallai bod hyn yn dangos bod modd i ymyriadau ataliol a chynnar, ynghyd â mentrau cefnogi, ganfod risg oedd yn guddiedig o'r blaen. Mae gan awdurdodau lleol dystiolaeth y bydd y cynnydd yn y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn arwain at gynnydd yn nifer y plant fydd yn derbyn gofal. Fodd bynnag, nid yw'r ffactorau hyn yn esbonio'r cynnydd sylweddol yng nghyfradd y plant ddaeth i dderbyn gofal yng Nghymru dros y 15 mlynedd diwethaf.

1.10. Ceid tystiolaeth glir mewn ffeiliau achos mai'r gwahaniaeth hollbwysig rhwng plant yn aros gartref gyda chefnogaeth gwaith cymdeithasol ar y naill law a phlant sy'n dod i dderbyn gofal ar y llaw arall yw cydweithrediad ac ymgysylltiad y rhieni a'r gofalmwyr gyda gweithwyr cymdeithasol a gwasanaethau eraill. Fodd bynnag, adroddai dros 80% o weithwyr cymdeithasol nad oeddent yn teimlo'u bod yn meddu ar y sgiliau i ymgysylltu'n effeithiol gyda theulu gwrthwynebus a'u cael i gydweithredu gyda gwasanaethau. Mae awdurdodau lleol wedi

profi anawsterau wrth geisio recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwysedig, yn enwedig ar y rheng flaen ac mewn timau cefnogi teuluoedd. Canfu'r adolygiad, lle roedd gweithwyr cymdeithasol yn brofiadol ac yn meddu ar lefelau uchel o sgiliau (wedi gweithio mewn amddiffyn plant ers 5 mlynedd neu ragor), eu bod yn fwy tebygol o ymgysylltu'n effeithiol gyda theuluoedd a chynorthwyo plant i barhau i fyw gartref. Mae cael y cydbwysedd iawn yn y gweithlu, rhwng staff profiadol a medrus

a staff sydd newydd ymgymhwyso, yn ffactor pwysig o ran sicrhau bod yr ymyriadau gwaith cymdeithasol a ddarperir yn effeithiol ac o ran cadw plant yn ddiogel gartref. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cynllunio'r gweithlu'n effeithiol. Efallai bod yna gydberthyniad rhwng yr her ar y naill law, a wynebwyd dros y 15 mlynedd diwethaf i recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol medrus a phrofiadol mewn timau rheng flaen, a'r cynnydd ar y llaw arall yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.

2. 2. Ansawdd yr Asesiadau

Trosolwg

Edrychodd yr adolygiad i weld a oedd ansawdd asesiadau yn cael unrhyw effaith ar sicrhau canlyniadau da i blant a phobl ifanc mewn angen. Roedd hyn yn cynnwys cael mynediad at asesiad, ymatebolrwydd y gwasanaeth ac ansawdd y wybodaeth a'r dadansoddiad yn yr asesiad. Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth o blaid cadw'r graddfeydd amser ar gyfer asesiadau, ond hefyd mabwysiadu agwedd fwy hyblyg, sy'n cefnogi ymarfer barn broffesiynol a goruchwyliaeth rheolwyr. Canfu'r adolygiad fod asesiad cychwynnol da yn allweddol i arwain at benderfyniadau proffesiynol cadarn. Ymhellach, roedd yn eglur bod peryglon yn rhan annatod o benderfyniadau dyletswydd ac atgyfeirio, a gâi eu gwneud gan staff heb gymwysterau. Mae sgil a gallu'r gweithiwr cymdeithasol i gynhyrchu asesiad o ansawdd da a herio, mewn ffordd adeiladol, y wybodaeth a roddir gan y teulu, tra'n dal i gadw perthynas gadarnhaol, yn allweddol. Roedd peryglon yn hollol amlwg, pan gâi asesiadau cychwynnol eu cynnal heb i'r teulu gael eu gweld.

Roedd gweithwyr cymdeithasol, a gyfwelwyd mewn rhai awdurdodau lleol, yn feirniadol iawn o fformat templedi asesiadau cychwynnol a chraidd yr ICS. Roeddent yn canfod nad oeddent yn hwyluso asesiad cyfannol nac yn gymorth i ddadansoddi, a chafwyd galwad bron yn unfrydol am ddileu blychau ticio a chael dim ond naratif mewn testun rhydd. Gwelodd yr arolygwyr hefyd achosion lle roedd biwrocratiaeth ddianghenraid wedi effeithio ar ansawdd yr asesiadau.

2.1. Cynhaliodd yr adolygiad arolwg o farn awdurdodau lleol am effaith hygyrchedd a phrydlondeb ar ansawdd yr asesiadau. Roedd yna amrywiaeth barn. Adroddai ymarferwyr gwaith cymdeithasol y gall ansawdd y wybodaeth atgyfeirio, ymgysylltu effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd a chyfranogaeth asiantaethau sy'n bartneriaid i gyd fod yn rhwystrau rhag cwblhau asesiadau o fewn y raddfa amser sy'n ofynnol. Mynegodd rheolwyr y farn y gall staff ddod o dan bwysau ychwanegol, os bydd nifer uchel o asesiadau i'w cwblhau o fewn

y ffrâm amser sy'n ofynnol, a bod hyn hefyd yn effeithio ar ansawdd asesiadau.

“O ran llywodraethu, mae yna berygl amlwg o 'gyrraedd y targed a cholli'r pwynt'.”

Atebwr arolwg awdurdodau lleol

Tra dywedai rhai ymarferwyr fod y graddfeydd amser yn rhy haearnidd, a'u bod yn cynnig cymhelliad gwrthnysig i gyfarfod â'r raddfa amser heb falio am yr ansawdd na'r diben, dywedai'r mwyafrif yn glir pe câi'r graddfeydd amser eu dileu yn llwyr y ceid y perygl o ddrifftio. Yn yr un modd, ystyrid bod mesuriadau hygyrchedd a phrydlondeb asesiadau yn ffordd o ddangos a oedd y capasiti cywir wedi ei sefydlu, o ran staffio ac adnoddau, i ddelio â'r galw am wasanaethau ac i reoli risg yn effeithiol. Ceid cytundeb cyffredinol ymysg rheolwyr awdurdodau lleol fod yna fwy o risg, pe câi graddfeydd amser eu dileu, na châi asesiadau eu cwblhau mewn digon o bryd i ddarparu gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol.

2.2. Roedd gweithwyr cymdeithasol, y siaradwyd â hwy yn ystod yr adolygiad, yn gyffredinol gefnogol i'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Asesu fel offeryn i ddatblygu dealltwriaeth lawn o'r teulu. Yr unig eithriad i hyn oedd y farn nad oedd fformat presennol yr asesiadau cychwynnol a chraidd mewn rhai awdurdodau lleol yn addas ar gyfer plant anabl. Roedd asesiadau da yn fwy tebygol o gael eu cyflawni os oedd gan y gweithiwr cymdeithasol y sgiliau i weithio ar y cyd gyda'r teulu i'w cynorthwyo i ddod i ddealltwriaeth o gryfderau ac anawsterau'r teulu. Mae'n hanfodol bod y gweithwyr cymdeithasol wedi cael eu hyfforddi a bod ganddynt yr hyder i weithio gyda theuluoedd a all fod yn dwyllodrus neu'n wrthwynebus. Adroddir bod rhai o'r offerynnau a welwyd gan yr arolygwyr, megis y model "Arwyddion Diogelwch" (gweler Atodiad A) sy'n cael ei ddefnyddio gan ddau awdurdod lleol yr ymwelwyd â hwy, yn gymorth i weithwyr cymdeithasol ddatblygu perthynas gref ond addas o heriol gyda theuluoedd. Roedd yna enghreifftiau o stori'r plentyn i'w gweld yn amlwg mewn asesiadau oedd yn dechrau gyda chronoleg drwyadl a hanes manwl y teulu. Roedd hyn fel arfer yn gymorth i roi gwybodaeth ar gyfer dadansoddiad trwyadl o'r rhan a chwaraeai'r plentyn ar y pryd o fewn ei deulu.

2.3. Canfu'r Adolygiad dystiolaeth fod asesiadau cychwynnol o ansawdd gwael yn arwain at benderfyniadau o ansawdd gwael, oedd yn gadael plant yn agored i risg annerbyniol ac oedi cyn cymryd y camau gweithredu addas. Dangosai'r dystiolaeth fod beichiau achosion mawr, biwrocratiaeth ddianghenraid ac, yn bwysicaf oll, lefel sgiliau a phrofiad gweithwyr cymdeithasol yn ffactorau oedd yn cyfrannu at ansawdd gwael yr asesiadau cychwynnol. Tueddai ansawdd gwael asesiadau craidd i arwain at gynlluniau gofal nad oedd gan y teulu ond ychydig os dim buddsoddiad ynddynt, ac felly ni châi'r canlyniadau eu cyflawni'n llawn neu roeddent yn tueddu i fod yn amhosibl eu cynnal yn y tymor hir. Arweiniai dealltwriaeth wael o'r plentyn yng nghyd-destun ei deulu at benderfyniadau gwael, a thebygolrwydd cryfach y byddai plant yn dod i dderbyn gofal. Tueddai asesiadau gwael i gymryd y wybodaeth a roddid fel yr oedd yn ymddangos, neu, fel arall, i'r gwrthwyneb, orfodi barn y gweithiwr cymdeithasol ar y teulu, gan adael y teulu heb fuddsoddiad yn y cynllun oedd yn dilyn. Anaml y defnyddir yr offer, a ddarparwyd gyda'r fframwaith asesu i'w defnyddio wrth gynnal asesiadau craidd. Dywedai gweithwyr cymdeithasol y siaradwyd â hwy nad oeddent yn cael yr offer yn ddefnyddiol. Daw'r offer yn fformat holiadur ac, er mwyn ei ddefnyddio'n effeithiol, rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol fod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i herio a chwestiynu atebion, yn enwedig lle mae teuluoedd yn dwyllodrus neu'n amharod i newid.

2.4. Ceid enghreifftiau lle roedd yr awdurdodau lleol wedi cymryd camau i leihau'r fiwrocratiaeth ddianghenraid sy'n gysylltiedig ag asesiadau, gwella'r fformat ar gyfer cyflwyno asesiadau, a buddsoddi mewn hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol. Ceid enghreifftiau o asesiadau o safon uchel gafodd effaith bendant ar ansawdd y canlyniadau.

Mewn un awdurdod lleol, mae'r gweithwyr cymdeithasol medrus iawn, sy'n cynnal yr asesiadau craidd, yn gwneud gwaith dwys gyda theuluoedd am nifer o wythnosau yn gynnar yn y broses, gan ddefnyddio modelau sgiliau ac ymyrryd penodol. Maent yn cynnal asesiad mewn partneriaeth

gyda'r teulu er mwyn goresgyn gwrthwynebiad a'u cynorthwyo i ddeall eu sefyllfa'n llawn. Wedyn byddant yn cynhyrchu un adroddiad manwl a dadansoddol o safon uchel, sy'n ddigon trwyadl i wasanaethu fel asesiad craidd, adroddiad amddiffyn plant neu adroddiad llys etc. os a phan fydd angen. Dengys y dystiolaeth fod y dull hwn yn arwain at gylch rhinweddol, oherwydd bod y broses o weithio gyda'r teulu i gynhyrchu'r asesiad yn arwain at y canlyniad bod y teulu'n ymrwymo i newid a'u bod yn llai tebygol o fod yn destun achos amddiffyn plant neu achos llys.

Fodd bynnag, mewn pedwar o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â hwy, roedd y systemau oedd wedi eu datblygu i gofnodi a rheoli gwybodaeth yn llai effeithiol, gyda'r canlyniad bod y staff yn aml yn dyblygu ymdrech; ceid tystiolaeth fod hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd yr asesiadau. Yn yr awdurdodau lleol hyn, mynegai gweithwyr cymdeithasol eu bod yn teimlo'u hunain yn cael eu llethu ar adegau gan y llu o adroddiadau yr oedd gofyn iddynt eu llunio. Cwestiynai ymarferwyr ddefnyddioldeb y systemau electronig, gan eu disgrifio fel rhai anaddas i'r diben ac eto y rhain yn aml oedd yn gyrru'r broses: yn un enghraifft, pe câi rhywbeth ei adael allan yn un adran ni fyddai'r system yn gadael i'r gweithiwr symud ymlaen i'r adran nesaf. Bwriad cael swyddogaeth o'r fath o fewn y system yw bod o gymorth ond, mewn gwirionedd, mae'n llyncu amser ac yn effeithio ar y broses o feddwl a dadansoddi.

2.5. Er yr adroddai gweithwyr cymdeithasol, gan mwyaf, fod ganddynt berthynas waith dda o ddydd i ddydd gyda phartneriaid statudol allweddol, nid oedd y dystiolaeth o gyfraniadau amlasiantaethol i asesiadau yn gyson. Pwyntiai rheolwyr awdurdodau lleol at anawsterau o ran sicrhau cydweithrediad partneriaid i roi gwybodaeth ar gyfer asesiadau, ac roeddent o'r farn y byddai rhaid cael polisi newydd gan y llywodraeth i fynd i'r afael â hyn. Ceid peth tystiolaeth y gwelid y gwasanaethau cymdeithasol fel y rhai oedd yn gyfrifol am gael eraill i gymryd rhan yn yr asesiad yn hytrach na bod yr asiantaethau yma'n gweld eu cyfrifoldeb i chwarae rhan lawn yn y prosesau hyn.

3. Ansawdd Ymyriadau Gwaith Cymdeithasol

Trosolwg

Bu'r tîm yn adolygu ansawdd yr ymgysylltiad gyda phlant a theuluoedd mewn gwaith cymdeithasol ac effaith y berthynas mewn gwaith cymdeithasol ar ansawdd y canlyniadau a sicrhawyd. Mae perthynas o ansawdd da yn arwain at ganlyniadau o safon, sy'n gynaliadwy yn y tymor hir ac yn gadael y teulu gyda'r gwytnwch a'r adnoddau i wynebu amser croes yn y dyfodol. Mae plant a theuluoedd hefyd yn fwy tebygol o ddod ymlaen a gofyn am gymorth gan y gwasanaethau os bydd arnynt eu hangen rywbryd eto. Dangosai atebion i'r arolwg, a gynhaliwyd ymysg plant a phobl ifanc ar gyfer yr adolygiad hwn, fod angen gwelliannau yn sgiliau gweithwyr cymdeithasol i gyfweld ac ymwneud yn sensitif gyda phlant. Er bod ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc yn bwysig dros ben iddynt, dengys yr arolwg mai ansawdd rhyngweithio'r gweithiwr cymdeithasol gyda hwy sydd flaenaf yn eu meddyliau. Yr hyn sydd ar y rhan fwyaf o ddefnyddwyr ifanc y gwasanaethau ei eisiau yw rhywun y gallant ddibynnu arno a rhywun y maent hwy'n teimlo sy'n eu deall hwy ac yn eu gwerthfawrogi. Er mai'r sefyllfa ddelfrydol fyddai cadw gweithiwr cymdeithasol drwy gydol yr ymyriad, os nad oes modd cyflawni hyn, byddai plant yn gwerthfawrogi pe câi'r broses o newid eu gweithiwr cymdeithasol ei rheoli'n well. Datgelodd yr adolygiad hefyd nad yw plant a phobl ifanc yn hoffi gweld staff yn ddiofal ynghylch cadw amser ymweliadau ac apwyntiadau neu ddim digon cwrtais i ganslo apwyntiadau.

Edrychodd yr adolygiad ar y ffactorau oedd yn gymorth i sicrhau ansawdd y gwaith o wneud penderfyniadau, asesu risg a rheoli risg a'r ffactorau oedd yn rhwystro. Mae gan awdurdodau lleol brosesau amrywiol ar gyfer gwneud penderfyniadau a rheoli risg. Yn yr achosion gorau, roedd y prosesau hyn o gymorth i weithwyr cymdeithasol deimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso yn eu gwaith. Fodd bynnag, mewn enghreifftiau eraill, a welwyd yn ystod yr adolygiad, roedd y prosesau penderfynu yn rhy fiwrocrataidd ac yn cymryd gormodedd o amser. Datgelodd y saith awdurdod lleol yn yr arolwg eu bod yn symud canolbwynt gwaith gweithwyr

cymdeithasol gwasanaethau plant oddi wrth reoli gofal/achos at fodel ymyriad uniongyrchol, er mwyn gwella ansawdd perthynas gwaith cymdeithasol a'r penderfyniadau a'r canlyniadau i blant.

3.1. Canfu'r adolygiad dystiolaeth sylweddol oedd yn awgrymu bod ansawdd y berthynas rhwng y gweithiwr cymdeithasol a'r teulu yn cael effaith allweddol ar sicrhau canlyniadau da. Roedd canlyniadau da'n debycach o gael eu sicrhau gyda pherthynas o ansawdd da, oherwydd bod teuluoedd yn tueddu i fuddsoddi yn y cynlluniau gofal, ac i gydweithredu â'r gweithwyr cymdeithasol a'r gwasanaethau i sicrhau'r canlyniadau a ddymunid. I'r gwrthwyneb, roedd perthynas gwaith cymdeithasol wael yn arwain at wneud penderfyniadau gwael oherwydd bod gweithwyr cymdeithasol yn methu â chael darlun a dealltwriaeth lawn o'r teulu. Weithiau byddai hyn yn golygu oedi cyn i'r awdurdod lleol weithredu i ddiogelu plant ac, mewn ychydig o enghreifftiau, plant yn cael eu gadael yn agored i niwed sylweddol er bod y gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod amdanynt.

Roedd perthynas o ansawdd gwael yn debygol o fod gyda theuluoedd nad oeddent yn cydweithredu neu oedd yn wrthwynebus i ymyriad gwaith cymdeithasol. Yn yr achosion hyn, roedd gweithwyr cymdeithasol yn fwy tebygol o wneud yr ymyriadau yn fwy difrifol, neu fygwth gwneud hynny, er mwyn ceisio sicrhau cydweithrediad. Mewn rhai achosion, arweiniodd y berthynas o ansawdd gwael at gau achosion cyn pryd, gyda'r canlyniad bod achosion wedyn yn cael eu hailatgyfeirio. Mewn rhai achosion, roedd gweithwyr cymdeithasol dibrofiad neu reolwyr timau oedd yn erbyn risg yn debygol o ddefnyddio'r gofrestr amddiffyn plant neu "Orchymyn Gofal" ar gyfer y plant hynny oedd wedi eu gosod gartref gyda'u rhieni, fel dull o sicrhau cydweithrediad teuluoedd gwrthwynebus. Arweiniodd hyn at ganlyniadau na ellid eu cynnal yn y tymor hir. Roedd perthynas dda yn fwy tebygol o gael ei ffurfio gyda theuluoedd gwrthwynebus lle roedd gweithwyr cymdeithasol yn defnyddio modelau ymarfer penodol, seiliedig ar dystiolaeth. Gwelodd yr adolygiad wahanol fodelau a dulliau ymyrryd yn cael eu defnyddio'n ymarferol mewn rhai awdurdodau lleol (gweler Atodiad A). Fodd bynnag, roedd yna beth tystiolaeth nad oedd yr holl fodelau yn effeithiol ym mhob sefyllfa a bod angen i'r

gweithiwr cymdeithasol ystyried yn ofalus er mwyn dewis yr offer addas i'w ddefnyddio gyda phob teulu.

3.2. Edrychodd yr adolygiad ar y ffactorau oedd o gymorth i ffurfio perthynas gwaith cymdeithasol dda gyda phlant a phobl ifanc, a beth oedd y rhwystrau. Nododd plant a phobl ifanc nifer o ffactorau a arweiniai at berthynas o ansawdd gwael gan gynnwys teimlo nad oedd neb yn malio amdanynt, a theimlo na allent ymddiried neu ymgysylltu â gweithiwr arbennig, efallai oherwydd ei ryw neu ei ffordd o stigmatiddio. Siaradai plant a phobl ifanc am weithwyr cymdeithasol yn dangos diffyg amynedd, rhwystredigaeth, blinder neu ddieter hyd yn oed wrth ymwneud â hwy. Disgrifient hefyd eu hargraffiadau o'u gweithiwr cymdeithasol fel rhywun oedd yn arglwyddiaethu, yn ymosodol neu'n bwllo. Mewn achosion eraill, roeddent yn dyfynnu ystumiau bychain nad oeddent bob amser yn addas:

“Tra roeddwn i'n cael cysylltiad, doedd hi ddim yn gwneud dim ond chwarae gyda'i ffôn. Roedd hi'n anfon negeseuon at bobl. Pan oedd mam yn ceisio siarad efo hi, roedd hi'n ei hanwybyddu.”

Person ifanc

Ffactor allweddol y soniai plant amdano oedd cyfleu gwybodaeth allweddol yn wael a methiant i wrando ar eu barn hwy; enghraifft oedd y gweithwyr cymdeithasol yn tueddu i gyfleu penderfyniadau yn well i'w rhieni nag yr oeddent yn eu cyfleu iddynt hwy. Gwelodd yr adolygiad enghreifftiau o gyfathrebu gwael, lle roedd rhagdybiaeth wedi ei ffurfio bod y person ifanc wedi deall yn llawn y deunydd ysgrifenedig oedd wedi ei roi iddo heb angen eglurhad pellach. Ceid tystiolaeth hefyd o gyfathrebu un ffordd, gyda gweithwyr cymdeithasol yn gwneud y siarad, heb aros i weld a oedd y person ifanc yn gwrando. Dywedai plant wrthym fod y gweithiwr yn torri ar eu traws o hyd pan oeddent yn siarad, neu fod eu barn hwy'n cael ei hanwybyddu o blaid barn eu rhieni neu farn y gweithiwr proffesiynol a'u bod yn cael y teimlad nad oedd wahaniaeth mewn gwirionedd beth a ddywedent. Roedd yr amser pryd y câi gwybodaeth ei hesbonio iddynt hefyd yn ffactor a allai llesteirio cyfathrebu da.

“Rydw i'n deall eu bod nhw wedi fy nghyfeirio i at y gwasanaeth yna am fod fy anghenion i'n gymhleth ond mi fuaswn i wedi bod yn falch i gael ychydig o amser wyneb yn wyneb efo'r person oedd yn gwneud y penderfyniadau yma ynglŷn â'r hyn oedd yn mynd ymlaen yn fy mywyd i.”

Person ifanc

3.3. Ffactor allweddol arall a nodwyd gan blant a phobl ifanc oedd bod yn ddibynadwy. Adroddai nifer sylweddol o blant eu bod wedi cael gweithwyr cymdeithasol oedd yn cyrraedd yn hwyr, neu ddim o gwbl, i apwyntiadau oedd wedi eu trefnu. Siaradent am fod yn flin am eu bod wedi canslo trefniadau gyda'u ffrindiau ac wedyn y gweithiwr cymdeithasol ddim yn troi i fyny ar y funud olaf. Felly, gallai gweithiwr cymdeithasol weld plentyn yn araf i gyfathrebu, neu'n amharod i ymgysylltu, ambell waith a byddai hynny'n cael effaith ar ansawdd yr ymyriad gwaith cymdeithasol, yn syml oherwydd y weithred, y gellid bod wedi ei hosgoi, o gyrraedd yn hwyr.

“Os ydyn nhw'n dweud eu bod nhw am wneud rhywbeth, wel, ei wneud o. Peidio â ngadael i i lawr. Cyrraedd ar amser. Mi fedrwch chi ddeall 15 munud neu hanner awr, ond peidio â throï i fyny na'ch ffonio chi, neu droi i fyny awr a hanner yn hwyr! Dim ond gwneud yn siŵr eich bod chi yna pan ydych chi'n dweud y byddwch chi yna.”

Person ifanc

Nodwyd trosiant staff hefyd fel ffactor sy'n llesteirio gallu pobl ifanc i ffurfio perthynas dda gyda gweithwyr cymdeithasol. Ceid peth tystiolaeth nad oedd plant bob amser yn cael eu hysbysu y byddai eu gweithiwr cymdeithasol yn newid neu hyd yn oed fod eu hachos wedi cael ei gau. Gadawai hyn hwy dan yr argraff fod ganddynt weithiwr cymdeithasol ond nad oeddent wedi ei weld ers misoedd lawer. Adroddai mwy nag 80% o'r plant yn yr arolwg eu bod wedi teimlo'n elyniaethus pan fyddai gweithwyr cymdeithasol yn dod ac yn mynd, heb rybudd nac esboniad:

“Does gen i ddim syniad pryd y bydd o’n troi i fyny ... weithiau fydda i ddim yn ei weld o am fisoedd ac wedyn weithiau mi fydda i’n ei weld o ormod o weithiau efo’i gilydd. Weithiau mi fydd o’n disgwyl amdana i yn y tŷ. Mae o’n rhyfedd, fel beth wyt ti’n ei wneud yn fy nhŷ i? Dydw i ddim wedi paratoi unrhyw atebion. Mae’n dipyn o sioc, fel rhywun yn neidio’n sydyn – fel panther sy’n llamu arnoch chi. Mae’n peledu cwestiynau ataf weithiau ac rydw i’n meddwl, ‘Arrrrrrhhh!’ Fel arfer, rydw i’n hoffi gwybod beth sy’n digwydd.”

Person ifanc

3.4. Roedd nodweddion perthynas o ansawdd da, a nodwyd gan blant, yn cynnwys gweithiwr cymdeithasol oedd â’i draed ar y ddaear ac yn eu deall; cael gwrandawriad a’u trin â pharch. Roedd gweithwyr cymdeithasol oedd yn ymateb yn onest i ymholiadau, oedd yn ddibynadwy ac yn cadw’u haddewidion hefyd yn cael eu gwerthfawrogi. Awgryma tystiolaeth o’r ffeiliau achos fod y gweithwyr cymdeithasol yma’n tueddu i fod naill ai’n brofiadol iawn, neu newydd gael hyfforddiant mewn cyfathrebu gyda phlant. Mae atebion y plant a’r bobl ifanc yn datgelu’r ffactorau sy’n gwneud perthynas dda yn bosibl a hefyd bwysigrwydd cael perthynas o ansawdd da:

“Doeddwn i ddim eisiau i fy ngweithiwr cymdeithasol adael – er mai dim ond 11 mlwydd oed oeddwn i, mi wnaeth hi i ni eistedd i lawr ac mi eglurodd hi bob dim oedd yn mynd i ddigwydd. Hi oedd yr unig un wnaeth egluro mai dim ond am amser byr, fel 3 mis, yr oedd y tŷ yr oeddem ni’n mynd iddo, achos mai dim ond lleoliad dros dro oedd o. Mi wnaeth hi esbonio pam y byddem ni’n symud i rywle arall. Hi oedd yr unig un wnaeth egluro pam yr oeddem ni’n mynd i mewn i ofal. Hi oedd yr unig un wnaeth egluro ynglŷn â chysylltiad a phob dim. Hi oedd yr UNIG un wnaeth i ni eistedd i lawr ac egluro pob dim i ni fel ein bod ni’n medru ei ddeall o. Ac mae hynny’n bwysig.”

Person ifanc

3.5. Wrth ymchwilio i ansawdd penderfyniadau mewn gwaith cymdeithasol, gwelodd yr adolygiad, mewn rhan fwyaf o achosion, nad yw penderfyniadau’n cael eu gwneud ar eu pen eu hunain gan weithwyr cymdeithasol. Mae awdurdodau lleol yn awyddus i sicrhau nad yw gweithwyr cymdeithasol yn agored i niwed neu wedi eu hynysu, drwy greu fforymau penderfynu megis paneli neu reolwyr timau, prif swyddogion neu benaethiaid gwasanaethau yn llofnodi. Fodd bynnag, ar adegau gall y fforymau a’r prosesau hyn lyncu amser. Mewn un enghraifft, dywedodd gweithwyr cymdeithasol wrthym y byddai’n rhaid iddynt fynd i bedwar panel gwahanol, ac y byddai angen adroddiad ym mhob un mewn fformat gwahanol, er mwyn cael cytundeb ar un penderfyniad. Roedd prosesau beichus fel hyn yn tynnu grym oddi ar weithwyr cymdeithasol, yn cael effaith negyddol ar y berthynas yr oeddent yn llwyddo i’w ffurfio gyda defnyddwyr gwasanaethau, ac roedd yna dystiolaeth eu bod yn llesteirio gwneud penderfyniadau o ansawdd da.

3.6. Datgelodd deg o’r awdurdodau lleol yn yr arolwg eu bod wedi dechrau gosod mesurau yn eu lle fydd yn arwain at welliant mewn ymyriadau gwaith cymdeithasol, ac awgryment fesurau y gellid eu gweithredu ar lefel genedlaethol. Y mentrau allweddol a ddaeth i’r amlwg, fel y rhai a ddefnyddid gan awdurdodau lleol er mwyn gwella ansawdd ymyriadau gwaith cymdeithasol, oedd gostyngiad yn y baich biwrocraidd ar weithwyr cymdeithasol unigol, datblygu a hyfforddi’r gweithlu a sicrhau lefelau addas o adnoddau. Rhoddodd tri o’r awdurdodau lleol dystiolaeth eu bod yn datblygu diwylliant i weithwyr cymdeithasol ddarparu eu hymyriadau hwy eu hunain gyda theuluoedd a bod yn broffesiynol atebol am yr ymyriadau hynny. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i sicrhau bod beichiau achosion yn cael eu cadw ar lefel resymol a bod lefelau addas o staff cymwysedig yn cael eu diogelu. Argymhellwyd hefyd canolbwyntio ar ansawdd ymarfer ar lefel genedlaethol; fel y dywedodd un atebwr:

“ (Mae arnom ni angen) isadeiledd i roi dannedd go iawn i’r cysyniad o ‘ymarfer seiliedig ar dystiolaeth’ a sicrhau ei fod yn cael ei ddatblygu’n gyson fel ‘y ffordd yr ydym yn gwneud busnes’ mewn gwaith cymdeithasol. Gallai hyn gynnwys datblygu

ymhellach ymyriadau therapiwtig wedi eu hachredu, yn cael eu darparu gan weithwyr cymdeithasol 'achrededig' neu 'drwyddedig' (tebyg i'r rhai a gefnogir gan TICD); gwell mynediad at ymchwil i arfer gorau a datblygu 'canolfannau rhagoriaeth'. ”

Atebwr arolwg awdurdodau lleol

3.7. Câi'r gwaith o reoli risg ei wneud orau pan oedd gweithiwr cymdeithasol profiadol yn gallu gwneud asesiad cynnar a manwl gywir o'r risg, oedd yn cael ei gefnogi gan asesiad llawnach o risg a ffactorau amddiffynnol hefyd. Nododd nifer o awdurdodau lleol bod gweithredu modelau penodol o amddiffyn plant, ar gyfer asesu risg a ffactorau amddiffynnol, yn rhan sylfaenol o wella ansawdd llawer o agweddau ar y gwasanaeth a ddarperir.

Mae un awdurdod yn canolbwyntio gyda rheolwyr ar feysydd allweddol dadansoddi, meddwl yn feirniadol ac ymholi gwerthfawrogol. Y rheswm am hyn yw eu fod yn cydnabod pwysigrwydd rôl arweinwyr timau mewn datblygu ansawdd ar draws gweithlu cymharol ddibrofiad. Pwysleisai awdurdod lleol arall ddatblygu strategaethau ymyrryd ac atal yn fuan er mwyn rhoi amser i weithwyr cymdeithasol gyflawni eu gwaith fel hyrwyddwyr newid. Mae amlinelliad o'r gyfraith gyhoeddus hefyd, pan gaiff ei ddefnyddio'n effeithiol, yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau diogel a chadarn. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'n cynnig strwythur ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n sicrhau nad oes un gweithiwr neu un asiantaeth yn cael ei gadael yn ddiamddiffyn gyda phenderfyniadau peryglus ynghylch plant a'u teuluoedd.

4. Ansawdd Cynllunio ac Adolygu Gofal

Trosolwg

Bu'r adolygiad yn archwilio ansawdd y cynllunio a'r adolygiadau ar gyfer plant, a chanolbwyntiodd yn neilltuol ar ganfod a oedd llais y plentyn yn rhan annatod o'r prosesau hyn. Roedd rheolwyr ac ymarferwyr yn cydnabod gwerth cynllunio ac adolygu achosion yn fuan, fel sydd wedi ei egluro yn y canllawiau a'r rheoliadau cenedlaethol, ond roeddent hefyd yn tynnu sylw at yr angen am farn broffesiynol a hyblygrwydd.

Fel gydag asesiadau, canfu'r adolygiad y gall biwrocratiaeth effeithio ar ansawdd cynllunio gofal a chafwyd esiamplau lle roedd plant a phobl ifanc yn destun nifer o gynlluniau a'u pwrpas yn medru achosi dryswch. Roedd adolygiadau cynlluniau, neu drefniadau gofal, yn tueddu i fod yn fwy effeithiol os oeddent yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau o amgylch y camau a fwriadwyd i sicrhau'r canlyniadau. Lle mae cynlluniau'n canolbwyntio ar dasgau, gall fod yn anodd i deuluoedd weithio allan beth a ddisgwylir ganddynt ac, yn hollbwysig, beth y gallant hwy ei ddisgwyl oddi wrth y gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Roedd yna enghreifftiau da, lle ceid tystiolaeth i lais y plentyn mewn cofnodion achos, mewn cyfarfodydd cynllunio ac adolygu a thrwy ddefnyddio'r papurau ymgynghori neu'r offer ymgysylltu. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn gyson ac mae angen canolbwyntio mwy ar sicrhau bod llais pob plentyn yn cael ei glywed.

4.1. Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol yn yr arolwg werthuso effaith prydlondeb ar ansawdd cynlluniau gofal. Yn gyffredinol, barn y mwyafrif oedd bod y graddfeydd amser, oedd yn gysylltiedig â'r prosesau cynllunio ac adolygu, yn gymorth i atal drifftio a galw asiantaethau i gyfrif am y penderfyniadau a wnaethant. Canfuwyd hyn drwy'r broses archwilio ac adolygu annibynnol. Cydnabyddid hefyd bod prydlondeb penderfyniadau, cynllunio gofal a gweithio amlasiantaethol effeithiol yn cael effaith ar ansawdd y canlyniadau i blant.

“Os ydy graddfeydd amser yn mynd i fod yn feistr arnom mae yna berygl na chaiff gwybodaeth ei chasglu gan asiantaethau perthnasol eraill a bydd hyn yn tynnu oddi wrth ansawdd y cynlluniau.”

Atebwr yr arolwg

Mynegodd un atebwr hyn drwy ddarlunio pwysigrwydd cynhyrchu cynlluniau sy'n seiliedig ar asesiad adfyfyriol, trwyadl, lle mae'r broses wedi caniatáu amser ar gyfer meddwl yn feirniadol, neu fel arall:

“Caiff arferion gwael eu sefydlu mewn cynllunio gofal pan fyddwn yn canolbwyntio ar 'wneud y pethau amlwg' yn dilyn asesiadau, yn hytrach na meddwl am yr anghenion a'r canlyniadau.”

Atebwr yr arolwg

4.2. Roedd ansawdd y cynlluniau gofal yn tueddu i fod yn well lle roedd cynllunio ar sail canlyniadau wedi dod yn rhan sefydlog o ymarfer. Roeddent wedi eu mynegi'n dda, roedd y plant a'u teuluoedd yn deall yn glir beth oedd pwrpas y cynllun a'r hyn yr oedd yn ceisio ei gyflawni. Lle roedd y canlyniadau wedi eu diffinio'n glir a gyda chydweithrediad y teulu, roedd yn haws monitro a chyflawni'r cynlluniau gofal. Mae awdurdodau lleol yn symud tuag at gynllunio ar sail canlyniadau, ond gwaith sydd wrthi'n datblygu yw hwn o hyd. Gwelodd y tîm adolygu symudiad tuag at gynllunio ar sail canlyniadau mewn pump o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â hwy. Mewn tri o'r rhain, nid yw gweithredu hyn ond megis cychwyn, sef newid fformat y dogfennau'n unig. Roedd yna enghreifftiau o rai staff heb fod yn hollol glir beth oedd "canlyniad" neu "angen". Er enghraifft, yn yr adran ar anghenion y teulu, darllenai un cynllun:

“Mae angen i Mr X roi'r gorau i guro ei wraig a'i blant.”

Cynllun gofal

4.3. Gwelodd yr adolygiad achosion lle roedd prosesau'n cael eu dyblygu gyda'r un teulu ar yr un pryd, megis amddiffyn plant ac achos llys. Gallai hyn olygu fod yna gynlluniau gofal llys, cynlluniau

amddiffyn plant a chynlluniau plant sy'n derbyn gofal yn cydreddeg ochr yn ochr. Ar adegau roedd rhai cynlluniau'n ddianghenraid oherwydd bod y llys yn gosod cyfeiriad y cynllunio. Mewn achosion eithafol, lle roedd nifer o brosesau'n rhedeg ochr yn ochr, roedd adnoddau sylweddol yn cael eu defnyddio yn monitro ac yn adolygu. Ychydig o werth ychwanegol y mae'r dyblygu yma'n ei gynnig ac mae'n cael effaith anffafriol ar amser gweithwyr cymdeithasol ac asiantaethau eraill, a'r canlyniad yw peri i blant a'u teuluoedd golli amynedd.

4.4. Dywedai teuluoedd wrthym eu bod yn gwerthfawrogi cael eglurder o gwmpas yr hyn oedd angen ei newid, a beth fyddai canlyniadau peidio â newid. Roeddent hefyd yn gwerthfawrogi'r gweithwyr cymdeithasol oedd yn dangos dealltwriaeth yn fuan o'r anawsterau y byddai'n rhaid i'r teulu eu goresgyn wrth geisio newid eu hymddygiad. Gwerthfawrogiad y model "arwyddion diogelwch" oherwydd teimlai teuluoedd eu bod yn cael eu grymuso gan y broses o gofnodi eu cynnydd. Gwerthfawrogiad y dechneg o holi gan godi cymhelliant, a ddefnyddid gan raglenni GICD (gweler Atodiad A), oedd yn galluogi rhieni i weld y posibiliadau a'r cryfderau oedd ganddynt i newid. Cytunai'r rhan fwyaf o deuluoedd mai'r hyn oedd yn y pen draw yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant oedd bod y rhieni neu'r gofawlyr yn cael y cymhelliad i newid ac yn ei gynnal. Nid oedd yn hawdd nodi'r union ffactor oedd yn achosi hyn, ond, ar ôl iddynt wneud y penderfyniad i newid, mae llwyddiant y gweithiwr cymdeithasol fel cyfrwng newid yn cael ei gynorthwyo neu ei rwystro gan effeithiolrwydd y cynllun gofal.

“Mi fuaswn i'n dweud wrth dadau eraill, sy'n defnyddio cyffuriau, yn frwnt, yn mynd i'r carchar, fel roeddwn i ... edrychwch yn llygaid eich plant, a gofynnwch i chi'ch hun beth maen nhw'n ei weld pan fyddan nhw'n edrych arnoch chi ... dyna pryd y gwnes i benderfynu bod rhaid i bethau newid.”

Rhiant

4.5. Mewn rhai cynlluniau, roedd yr ymyriad yn canolbwyntio gymaint ar yr oedolion yn y teulu, ar ofynion y gwasanaethau ac ar ofynion biwrocrataidd fel mai prin y gellid clywed llais y plentyn. O'r plant a'r bobl ifanc oedd wedi eu cynnwys yn yr arolwg, adroddai 78% eu bod yn teimlo nad oeddent wedi cael y cyfle i roi eu barn hwy am y gwasanaethau a dderbynent. Roedd mwy na 50% o'r plant heb fod yn bresennol mewn adolygiadau amddiffyn plant neu blant sy'n derbyn gofal, ac mae rhy ychydig o flaenoriaeth o hyd yn cael ei roi i wneud y cyfan neu ran o'r cyfarfodydd adolygu'n ddeniadol i blant.

“Pan fyddai'r gweithwyr cymdeithasol yn arfer dod i ngweld i, mi fydden nhw'n mynd â fi i mewn i ystafell, efo llwythi o bobl ... Mi fyddai yna tua 12 o bobl mewn ystafell, yn dweud wrtha i, ... 'fy enw i ydy hwn a hwn, rydw i'n ymwneud â hyn a hyn' ... a dyna'r cwbl. Os bydda i'n dod yn rhywbeth fel Prif Weinidog, mi fydda i'n cymryd y gyfraith i fy nwylo i fy hun achos mi fuaswn i'n gwybod beth fyddai'r plant yna isio. Achos fy mod i wedi bod drwyddo fo fy hun, mi fuaswn i'n gwybod sut i'w cadw nhw rhag teimlo'n ddiflas a meddwl bod neb eu hisio nhw.”

Person ifanc

5. Ansawdd y Gwasanaethau

Trosolwg

Edrychodd yr adolygiad ar amrywiaeth ac argaeledd gwasanaethau, a gomisiynid gan y trydydd sector neu a ddarperid yn fewnol gan awdurdodau lleol. Un o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad oedd bod ystod ac ansawdd y gwasanaethau oedd ar gael i deuluoedd yn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru. Rhoddodd yr adolygiad dystiolaeth fod swyddogaeth gweithwyr cymdeithasol mewn gwasanaethau plant yn fwy o lawer na rheoli gofal yn unig. Ni all y gweithiwr cymdeithasol yn syml gontrolio asiantaethau allanol i ddarparu gwasanaethau i deuluoedd heb ymyrryd ei hun yn uniongyrchol ac ymwneud â hwy. Lle nad yw'n gwneud hyn, nid yw'r gwasanaethau'n cyflawni'r hyn a ddymunir. Roedd rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau a ddarperid; fodd bynnag, dywedent hefyd fod cael gormodedd o weithwyr proffesiynol yn dod i mewn i'w bywydau yn medru bod yn llethol.

Archwiliodd adolygwyr effeithiolrwydd y ffordd yr oedd y gwasanaethau yn ymgysylltu â phlant a'u teuluoedd, a sut mae comisiynu gwasanaethau yn gymorth neu'n rhwystr i sicrhau canlyniadau o ansawdd da i blant. Mae awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn datblygu strategaethau i wella effeithiolrwydd y gwasanaethau a gomisiynir o ran sicrhau canlyniadau i blant. Mae defnyddio dulliau cydweithredol gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn hollbwysig o ran gwella ansawdd ac amrediad y gwasanaethau y gellir eu cynnig i blant mewn angen.

5.1. Ystyriodd yr adolygiad amrywiaeth o wasanaethau a ddarperid, gan gynnwys gwasanaethau eiriol, gwasanaethau magu plant, gwasanaethau mewdol i gefnogi teuluoedd a gwasanaethau arbenigol i amddiffyn plant a'u cynorthwyo'n addysgol. Yn 69% o'r achosion, ymgynghorwyd â'r plant a'r bobl ifanc neu cawsant eu hysbysu ymlaen llaw am y gwasanaethau fyddai'n cael eu darparu ac yn 66% o'r achosion rhoddwyd dewisiadau iddynt ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperid. Yn 91% o'r achosion roedd y plant a'r bobl ifanc y siaradwyd â hwy'n gwybod pwy oedd wedi darparu'r gwasanaeth ac roedd 87% o'r plant y siaradwyd â hwy yn ystyried bod eu

hanghenion wedi cael eu hateb. Roedd 56% o'r gwasanaethau, a ystyriwyd yn yr arolwg, yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Nid yw rhai gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau camdriniaeth ddomestig, gwasanaethau ar gyfer iechyd meddyliol ac emosiynol plant a gwasanaethau i gefnogi rhai sydd wedi dioddef camdriniaeth rywiol, ar gael yn gyson ar draws Cymru.

5.2. Mae gweithwyr cymdeithasol yn credu eu bod yn eiriolwyr da dros blant a theuluoedd a'u bod yn trafod i gael y gwasanaethau y mae ar y teuluoedd eu hangen. Fodd bynnag, cytunai'r gweithwyr cymdeithasol eu bod weithiau'n atgyfeirio ar sail y gwasanaeth oedd ar gael, a'r angen i ddarparu cymorth i'r teulu, yn hytrach nag oherwydd bod eu hasesiad wedi dangos mai'r gwasanaeth neilltuoel hwnnw oedd ei angen. Cyfeirir at hyn fel arfer fel cynllunio ar sail gwasanaethau yn hytrach na chynllunio ar sail anghenion. Mae yna brosesau atgyfeirio niferus y mae angen llywio'r ffordd drwyddynt a gall hyn lyncu amser a thynnu oddi wrth yr amser sydd ar gael i ymgysylltu â phlant a theuluoedd. Ychydig o dystiolaeth a welodd yr adolygiad, yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â hwy, o ddefnyddio prosesau atgyfeirio cyffredin ar draws y gwasanaethau a gomisiynid.

5.3. Canfu'r adolygiad, er y gall gweithwyr o wasanaethau a gomisiynir ffurfio perthynas dda gyda phlant a theuluoedd, a darparu allbynnau a werthfawrogi, ei bod yn hanfodol i'r teulu gael ymwneud yn ymarferol â'r gweithiwr cymdeithasol a ddyrannwyd er mwyn cael y gobaith gorau o gyfarfod ag anghenion y plant a'u teuluoedd yn llawn. Mynegodd un person ifanc yn yr arolwg y farn hon:

“Wyddwn i ddim hyd yn oed sut i gysylltu efo fy ngweithiwr cymdeithasol. Wnes i mo'i gyfarfod o am tua blwyddyn. Yn y diwedd, mi fu rhaid i mi gael fy ngweithiwr (corff gwirfoddol) i drefnu efo fo. Doedden nhw'n gwneud dim yn y bôn ond lluchio pres at y (corff gwirfoddol) a disgwyl iddyn nhw ddelio efo'r mater ... Roeddwn i'n teimlo mod i wedi cael fy ngadael, fel tasan nhw gystal â dweud 'dwyt ti ddim werth ein hamser ni'.”

Person ifanc

Lle y cafodd canlyniadau da eu sicrhau, roedd gweithwyr cymdeithasol wedi ymgysylltu a chyfathrebu'n effeithiol gyda'r holl wasanaethau dan sylw. Roeddent wedi sicrhau bod pawb yn cael gwybod am yr holl gynnydd yn rheolaidd, wedi bod ar gael i gynnig unrhyw gefnogaeth neu wybodaeth yr oedd ar y gwasanaethau ei hangen, wedi datrys unrhyw broblemau, wedi sicrhau bod yr holl wasanaethau gwahanol yn cydweithio'n dda a'u bod i gyd yn canolbwyntio ar y canlyniadau oedd wedi eu diffinio yn y cynllun. Weithiau gofynnai hyn am sgiliau trafod, cyfathrebu ac ymgysylltu o safon uchel. Roedd gweithwyr proffesiynol, oedd yn gweithio i wasanaethau eraill, yn glir mai'r prif wahaniaeth rhwng achosion lle y llwyddwyd i sicrhau canlyniadau a'r achosion lle na chafwyd llwyddiant oedd ansawdd y gwaith a wnaed gan y gweithiwr cymdeithasol i sicrhau bod y teulu'n ymgysylltu ac yn cydweithredu gyda'r holl wasanaethau.

“Ymarfer gwaith cymdeithasol da (mewn gwasanaethau plant) ydy cael lefelau da o gyfathrebu, cynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd, cysylltu gyda gwasanaethau eraill a chyd-drefnu eu rhan nhw. Felly, beth bynnag ydy o, iechyd, y sector gwirfoddol, addysg, – tynnu profiadau pawb, o blentyn neu deulu, at ei gilydd er mwyn gyrru'r broses benderfynu yn ei blaen ac iddynt wybod sut i gynllunio. ”

Rheolwr yn y Sector Gwirfoddol

Ceid tystiolaeth fod gweithwyr proffesiynol o wasanaethau a gomisiynid ac o wasanaethau ac asiantaethau statudol eraill yn fwy tebygol o fod yn ymroddedig i gyflawni'r cynllun gofal, os oedd ganddynt hyder yn y gweithiwr cymdeithasol a ddyrannwyd.

5.4. Roedd rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi gwasanaethau oedd yn glir ynghylch y canlyniadau yr oedd angen eu sicrhau ac nad oeddent yn eu llethu â gormod o wahanol bobl broffesiynol gwahanol. Amrywiai barn rhieni a gofalwyr ynghylch gwerth asesiadau a gomisiynwyd ar gyfer y llys a theimlent eu bod yn cael eu holi'n aml am yr un wybodaeth gan amrywiol unigolion. Roedd plant yn arbennig yn gwerthfawrogi'r sefydlogrwydd a'r

diogelwch y gall lleoliad maeth da ei roi. Gwelodd yr adolygiad dystiolaeth fod gofal maeth o safon uchel yn cyfrannu at addysg dda a chanlyniadau da o ran ansawdd bywyd. Roedd plant a phobl ifanc yn glir mai cael perthynas dda gyda'u gofalwyr maeth oedd yr elfen allweddol yn y newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau:

“ Y gofalwyr maeth yma mewn gwirionedd oedd y rhai wnaeth ddarganfod mod i'n Dyslecsig, felly mi wnes i'r profion ac fe wnaethon nhw wthio a gwrthio a gwrthio i mi gael rhywun i fy helpu fi yn yr ysgol. Fe aethon nhw i'r ysgol bob wythnos, dim ond gwrthio a gwrthio. Yn y diwedd mi gefais i ddynes; roedd hi'n dod i bob un gwers ac yn fy helpu fi. Roedd hi'n fy adnabod i; doedd dim rhaid i mi ofyn am help, roedd hi'n gwybod pan fyddwn i'n cael trafferth. ”

Person ifanc

Y gwasanaethau iechyd a werthfawrogid fwyaf gan bobl ifanc oedd y gwasanaethau ar gyfer camddefnyddio cyffuriau a sylweddau. Roedd pobl ifanc yn cydnabod y rhesymau pam yr oeddent yn defnyddio cyffuriau a'r effeithiau negyddol a gaent ar eu bywydau, ac felly, lle roedd y gwasanaethau hyn yn effeithiol i ostwng neu ddileu'r defnydd o gyffuriau, roeddent yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Pan oedd plant yn feirniadol ynghylch gwasanaethau, roedd hynny fel rheol am iddynt orfod disgwyl yn rhy hir, neu am nad oeddent yn deall yr angen am y gwasanaeth. Câi gwasanaethau eiriol a chyfryngu eu gwerthfawrogi'n fawr.

5.5. Dywedai'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eu bod wedi gwneud gwelliannau yn eu strategaethau rianta corfforaethol, a ddylai gryfhau partneriaethau ar draws adrannau awdurdodau lleol. Gwelodd yr adolygiad rai enghreifftiau da o strategaethau atal wedi eu cydlynw, lle roedd adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio gydag asiantaethau eraill. Roedd hyn yn fwyaf effeithiol lle yr oedd yr holl asiantaethau wedi ymrwymo, yn wleidyddol a chorfforaethol, i amcanion cyffredin, oedd yn dylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau fyddai'n gymorth i ganfod ac ateb angen yn fuan.

“Ein harwyddair ni ydy bod atal yn well na gofal.”

Cynghorydd awdurdod lleol

Roedd strategaethau ataliol i'w gweld yn gweithio yn fwyaf effeithiol lle y caent eu defnyddio'n gyson gan bob asiantaeth ar draws eu gwasanaethau, yn hytrach na gan brosiectau unigol.

Er enghraifft, mewn un awdurdod lleol, mae mentrau newydd yn cael eu cychwyn fel rhan o'u strategaeth atal, er mwyn galluogi athrawon i ddeall beth yw effaith magwraeth wael ac i ddarparu gwasanaethau ychwanegol mewn ysgol i gefnogi, er enghraifft, rhieni gyda phroblemau camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau. Yr un pryd, mae plant mewn ysgolion yn cael eu haddysgu am eu hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae hyn yn cynnwys eu hawl i fyw yn rhydd o gamdriniaeth ac esgeulustod, a'r lefel o ofal y dylent ei disgwyl gartref.

5.6. Roedd rheolwyr awdurdodau lleol yn cydnabod pwysigrwydd comisiynu gwasanaethau ar y cyd, er eu bod hefyd yn nodi bod pwysau cyllidol ar

draws asiantaethau oedd yn bartneriaid yn creu anawsterau. Dywedent y gallai hyn fod yn arbennig o wir am wasanaethau ieuchyd, gan nad oedd y trothwy ar gyfer darparu gwasanaeth ac ymyrryd bob amser yr un fath ag un awdurdod lleol. Roedd barn glir y byddai cofnodi angen, oedd heb ei ateb, yn fwy cyson yn nodi ac yn tynnu sylw at fylchau mewn comisiynu. Gellid gwella dulliau dadansoddi anghenion hefyd er mwyn cydweddu gwasanaethau yn fwy effeithiol gyda'r galw. Er bod awdurdodau lleol yn cydnabod bod angen canolbwyntio, wrth fonitro a gwerthuso gwasanaethau a gomisiynir, ar y canlyniadau y maent yn eu sicrhau ac nid yn unig ar faint o'r gwasanaethau a ddarperir, dau yn unig oedd yn dweud eu bod yn cymryd camau i gywiro hyn. Roedd un yn datblygu fframwaith Atebolrwydd ar sail Canlyniadau (gweler Atodiad A) i werthuso gwasanaethau a gomisiynwyd, tra roedd y llall yn dweud eu bod yn datblygu ymgynghoriad mwy effeithiol, ystyrlon ac annibynnol gyda phlant a theuluoedd.

6. Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Trosolwg

Bu'r adolygiad yn ystyried effaith arweinyddiaeth a rheolaeth ar ansawdd ymarfer gwaith cymdeithasol gyda phlant a theuluoedd, ac ar ansawdd y canlyniadau a gafwyd. Edrychodd yr adolygiad ar y weledigaeth yr oedd yr awdurdod lleol wedi ei gosod ar gyfer y plant, a'r flaenoriaeth gorfforaethol a roddid i gyflawni'r weledigaeth a'r canlyniadau. Casglodd yr adolygiad dystiolaeth gan aelodau etholedig ar draws y sbectrwm gwleidyddol yn y saith awdurdod lleol yr ymwelwyd â hwy. Yn ogystal â rhoi mynegiant i'r weledigaeth a'r dyheadau, oedd gan eu hawdurdodau ar gyfer plant a phobl ifanc, nododd yr aelodau hefyd elfennau oedd ymhlyg ym mholisiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig oedd yn peryglu'r gobaith o sylweddoli canlyniadau.

Bu'r adolygiad hefyd yn ystyried effaith systemau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd. Dengys y dystiolaeth fod yna ddiwylliant rheoli perfformiad cryf yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol er bod y ffordd y caiff perfformiad ei reoli yn amrywio. Lle yr oedd yn cael ei yrru gan y system ac yn swyddogaethol yn unig, gyda'r broses yn cael ei gweithredu'n ddifeddwl, roedd mewn gwirionedd yn gweithio yn erbyn perfformiad da. Mae sicrhau ansawdd mewn awdurdodau lleol yn tueddu i ganolbwyntio ar reoli ansawdd, ac mae'r agweddau eraill ar sicrhau ansawdd i raddau helaeth heb eu datblygu. Gwelid yr enghreifftiau gorau o sicrhau ansawdd lle roedd ansawdd yn rhan annatod o ddiwylliant yr adran.

Archwiliwyd cynlluniau datblygu'r gweithlu i weld a oeddent yn cael effaith uniongyrchol ar sicrhau canlyniadau da i blant a theuluoedd. Mynegai ymarferwyr gwaith cymdeithasol a rheolwyr timau y pwysigrwydd a'r gwerth yr oeddent yn ei roi ar oruchwyliaeth. Fodd bynnag, adroddent y gall goruchwyliaeth, ar adegau o bwysau, ganolbwyntio i raddau helaeth ar dasgau a'r camau yr oedd angen eu cymryd mewn achosion, a chanolbwyntio llai ar ansawdd, perfformiad neu ddatblygiad proffesiynol yn gyffredinol. Nodai gweithwyr cymdeithasol

fod angen iddynt ddatblygu eu sgiliau i weithio gyda theuluoedd oedd yn wrthwynebus i newid ac i gynnal asesiadau arbenigol. Byddent hefyd yn gwerthfawrogi hyfforddiant mewn dulliau ymyrryd ar sail tystiolaeth. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gallai fod gwerth mewn ystyried fframwaith llywodraethu cenedlaethol ar gyfer Cymru i gymeradwyo defnyddio ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth mewn gwaith cymdeithasol. Yn olaf, edrychodd yr adolygiad ar ansawdd ymgysylltiad â defnyddwyr. Er ei bod yn hawdd gweld tystiolaeth i ehangder y gweithgareddau cyfranogi sy'n digwydd, mae'n llai hawdd gweld pa effaith a gawsant o ran gwella ansawdd gwasanaethau i blant a theuluoedd.

6.1. Gallai'r holl aelodau etholedig y buwyd yn siarad â hwy roi mynegiant clir i weledigaeth ar gyfer plant yn eu hawdurdod lleol ac roeddent yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol. Mewn mannau, lle roedd y weledigaeth yn cael ei datgan yn glir ac wedi ei deall yn iawn, roedd polisiau'r cyngor a'r ffordd y câi adnoddau eu blaenoriaethu yn adlewyrchu'r weledigaeth yn amlwg, a cheid tystiolaeth o fwy o gynnydd ac effaith ar sicrhau'r canlyniadau a ddymunid. Lle nad oedd cystal dealltwriaeth o'r weledigaeth ar draws y cyngor, gallai polisiau adrannau eraill o fewn y cyngor ambell dro weithio'n groes i'r polisiau ar gyfer plant a'u teuluoedd. Dangosai aelodau eu bod yn sylweddoli bod angen mwy o gydgyssylltu polisiau a strategaethau ar draws meysydd gwasanaeth. Sylweddolent hefyd mai'r Byrddau Gwasanaethau Lleol ddylai fod y cyfrwng i sicrhau dull strategol cydgysylltiedig a chyfannol o ddarparu gwasanaethau. Roedd aelodau hefyd yn cydnabod pwysigrwydd swyddogaeth yr aelod arweiniol a'r angen i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r materion a phwysigrwydd y trefniadau craffu. Mae rhai ardaloedd wedi datblygu mentrau i sicrhau cyfrifoldeb traws-adrannol am sylweddoli'r weledigaeth ar gyfer plant mewn angen, megis defnyddio swyddogaethau rhianta corfforaethol wrth drafod penderfyniadau ynghylch tai ac addysg. Dyfynnwyd mentrau'n cael eu cyllido â grant, megis prosiectau gwella cyfnod allweddol 4, hefyd gan aelodau etholedig fel cyfryngau defnyddiol i gydgyssylltu strategaethau ar draws adrannau ar gyfer plant mewn angen. Fodd bynnag, nododd aelodau fod yna broblemau weithiau o ran sicrhau cydweithrediad ar y blaenoriaethau gan bartneriaid y tu allan i'r cyngor, yn enwedig y byrddau iechyd. Mewn hinsawdd gyllidol heriol,

roedd aelodau etholedig wedi gweld yr angen i flaenoriaethu gwasanaethau cymdeithasol, a naill ai wedi eu hamddiffyn rhag toriadau mewn cyllid, neu wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau plant. Teimlai'r holl aelodau etholedig y siaradwyd â hwy fod diwygio lles yn debygol o gynyddu'r galw ar y gwasanaethau cymdeithasol yn sylweddol. Pwysleisiwyd bod y diwygiadau sydd ar y ffordd yn debygol o leihau'r cyfoeth mewn rhai rhannau o Gymru drwy symud adnoddau sylweddol allan o'r economi leol. Problem arall a godwyd oedd y gwahaniaeth mewn cyflogau ymysg gweithwyr cymdeithasol, y mae rhai aelodau etholedig yn credu yw un o'r achosion dros ddifffyg sefydlogrwydd yn y gweithlu.

6.2. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol staff sydd wedi eu neilltuo i gasglu gwybodaeth perfformiad. Maent yn casglu data ac yn darparu gwybodaeth reolaidd am berfformiad, a chreffir ar hon yn gyson. Caiff perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad ei reoli a'i fonitro'n fanwl gan y timau rheoli yn yr holl awdurdodau lleol oedd yn cymryd rhan yn yr adolygiad hwn, oedd yn cynnwys rheolwyr timau, rheolwyr gwasanaethau, penaethiaid gwasanaethau a chyfarwyddwyr corfforaethol. Roedd y gweithwyr cymdeithasol y siaradwyd â hwy, ar y cyfan, yn gwerthfawrogi'r graddfeydd amser a'r Dangosyddion Perfformiad gan eu bod o gymorth iddynt atal drifft mewn achosion. Ar y llaw arall, daeth yr adolygiad ar draws tystiolaeth o weithgareddau gwaith cymdeithasol yn cael eu "sbarduno" gan systemau TG yn hytrach na bod yn ganlyniad barn broffesiynol resymegol. Cafwyd tystiolaeth hefyd o systemau cyfrifiadurol anhydrin neu feichus a ddefnyddid i gasglu gwybodaeth perfformiad.

6.3. Mae rheoli a mesur ansawdd mewn awdurdodau lleol yn cynnwys ystod o weithgareddau, ac nid pob un o'r rhain sy'n effeithiol. Caiff ansawdd asesiadau ac adroddiadau llys eu gwerthuso'n bennaf fel rheol ar lefel rheolwr tîm a rheolwr gwasanaeth, gan ddefnyddio offer archwilio ffeiliau achos. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar wella ansawdd asesiadau ac adroddiadau a gyflwynir i'r llys, a gallant ddangos canmoliaeth gan y farnwriaeth yn cydnabod y gwelliannau. At hynny, gwelodd yr adolygiad awdurdodau lleol oedd yn datblygu methodolegau megis Dadansoddiad ar sail Canlyniadau i fesur gwelliannau mewn ansawdd, er nad oedd effeithiau

hyn, o ran gwella ansawdd y gwaith, yn amlwg hyd yma.

Mae pump o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â hwy wedi nodi meysydd penodol ar gyfer gwelliant yn eu harchwiliadau ansawdd ac maent yn datblygu rhaglenni hyfforddiant a datblygiad i gyflawni'r rhain. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth yn glir nad oedd y gweithwyr cymdeithasol yn yr awdurdodau lleol hyn yn gwybod am effaith gweithgarwch rheoli ansawdd. O ganlyniad, cyfyngedig oedd yr effaith ar ansawdd ymarfer proffesiynol. Rhoddodd un awdurdod lleol yr ymwelwyd ag ef enghraifft o ymarfer da. Mae'r rheolwyr yn yr awdurdod hwn yn newid diwylliant y gweithlu i ganolbwyntio ar waith o ansawdd da. Maent yn gwneud hyn drwy ddefnyddio dull "Rheoli Ansawdd Cyflawn". Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth fod yr uwch reolwyr yn yr awdurdod hwn yn casglu'r holl wybodaeth o'r amrywiol weithgareddau sicrhau ansawdd, gan gynnwys barn plant a theuluoedd, ac yn ei rhoi i'r ymarferwyr a'r rheolwyr, er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau yn cael effaith weladwy ar wella ansawdd y gwaith proffesiynol. Yn yr awdurdod hwn, roedd yr effaith ar ansawdd y gwaith cymdeithasol ac ansawdd y canlyniadau a sicrhawyd yn hollol amlwg:

“Mae'r Cylch Ansawdd Cyfan yn ymwneud â chynnal a gwella ymarfer. Mae'n gofyn am werthuso rheolaidd er mwyn sicrhau bod y Gwasanaethau yn dal i ateb anghenion newidiol y plant a'r bobl ifanc yr ydym yn dod i gysylltiad â hwy. Yr her sy'n wynebu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yw trosi hyn yn ymarfer gwell ar bob lefel, a'r nod yw datblygu diwylliant o ansawdd ar gyfer y corff i gyd gan gyfuno gweledigaeth a chynllunio, sy'n dod i lawr o'r top, gyda chynnwys y bobl ar y gwaelod a rhoi cymhelliad i'r staff i gyd.”

Dogfen bolisi awdurdod lleol

6.4. Wrth edych i mewn i ansawdd goruchwyliaeth a hyfforddiant, canfu'r adolygiad lle roedd yna bwysau difrifol ar dimau nad oedd goruchwyliaeth yn gyson. Mae datblygiad parhaus y gweithlu yn un o'r ffactorau hanfodol y mae awdurdodau lleol yn canolbwyntio arnynt wrth wella ansawdd yr ymyriadau a ddarperir. Gwelodd y tîm adolygu

rai cynlluniau hyfforddi a datblygu oedd wedi eu datblygu'n dda; fodd bynnag, gwnaeth ymarferwyr gwaith cymdeithasol y sylw, er bod ystod dda o hyfforddiant ar gael i weithwyr cymdeithasol oedd yn ddibrofiad, bod llai o gyfleoedd datblygu ar gyfer ymarferwyr gwaith cymdeithasol oedd wedi ymgymhwysu ers pum mlynedd neu fwy. Nododd gweithwyr cymdeithasol fod arnynt angen datblygu eu sgiliau i weithio gyda theuluoedd oedd yn wrthwynebus i newid. Teimlai'r rhan fwyaf nad oeddent wedi derbyn yr hyfforddiant hwn fel rhan o'u hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Teimlai gweithwyr cymdeithasol tîm y rheng flaen y byddent yn cynnal asesiadau mwy arbenigol pe caent yr amser a'r hyfforddiant, ac felly y byddent yn arbed yr angen i gomisiynu'r adroddiadau hyn yn allanol. Byddent hefyd yn gwerthfawrogi hyfforddiant mewn dulliau ymyrryd ar sail tystiolaeth (e.e. holi sy'n codi cymhelliant), ond maent yn amharod i gael eu cyfyngu i ddulliau penodedig o ymyrryd. Yn hytrach, yr oeddent yn edrych am amrediad o "offer" y gellid tynnu arnynt yn ôl anghenion defnyddiwr y gwasanaeth neu'r sefyllfa benodol. Gellid rhoi ystyriaeth i ddatblygu fframwaith llywodraethu cenedlaethol i gymeradwyo defnyddio ymyriadau ar sail tystiolaeth mewn gwaith cymdeithasol. Byddai hyn yn galluogi'r awdurdodau lleol ac asiantaethau gwaith cymdeithasol eraill i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

6.5. Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant iau hefyd yn caiff ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaethau a'u cyfranogaeth ei gynnal drwy ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau i gasglu adborth gan bobl ifanc a'u teuluoedd. Gall y rhain fod yn gyffredinol neu fod wedi eu targedu at agweddau penodol ar wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys arolygon bodlonrwydd, arolygon yn dilyn gweithgareddau penodol megis cynadleddau amddiffyn plant, yn ogystal â grwpiau ffocws a chynadleddau. Defnyddir cwynion a chanmoliaeth hefyd yn aml i fesur bodlonrwydd defnyddwyr gwasanaethau. Mae swyddogaeth y gwasanaethau eiriol annibynnol yn bwysig i sicrhau bod barn a dymuniadau yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Mae byrddau diogelu plant iau hefyd yn cynyddu llais plant a phobl ifanc mewn cynllunio ac adolygu gwasanaethau. Fodd bynnag, ni allai awdurdodau lleol yn hawdd ddangos effaith yr holl weithgareddau hyn. Yn yr arolwg plant, pobl ifanc a'u teuluoedd a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiad

yma, roedd 55% o'r atebwyr yn cofio bod rhywun wedi gofyn am eu barn ond teimlai 51% nad oedd eu barn wedi cael ei chlywed na'i chymryd i ystyriaeth. Teimlai 64% o ddefnyddwyr gwasanaethau nad oeddent wedi cael sylw'n brydlon tra roedd 73% yn teimlo bod darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer eu gofynion mynediad. Roedd pobl ifanc yn amlwg yn gwerthfawrogi cael llais yn enwedig pan oeddent yn teimlo bod y bobl oedd yn gwneud y penderfyniadau yn gwrando:

“Beth ydw i'n ei feddwl ydy, rydw i wedi cyfarfod Pennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol – roedd y peth i gyd yn fawr ac yn bwysig, ond mi wnaethom ni eistedd a mi ddaru ni lwyddo i gael ein neges drosodd. A dyma ni yn dweud, 'dydyn ni ddim isio i'n stwff ni gael ei roi mewn bagiau duon dim mwy; rydan ni isio cesys.' Ac mi gafodd rhywbeth ei wneud ynglŷn â'r peth; roedd o'n dda iawn. Mi wnaeth o beth oedd o'n ei ddweud. Roeddem ni wedi bod yn sôn am hyn am flynyddoedd ac wedyn yn y diwedd mi gawsom ni ei gyfarfod o yn yr adeilad cynadledda mawr yma.”

Person ifanc

6.6. Gofynnwyd i bobl ifanc a'u teuluoedd, a atebodd yr arolwg, pa fesurau fyddai'n gwella ansawdd y gwasanaethau gofal cymdeithasol yr oeddent yn eu derbyn. Y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r cwestiwn oedd sgiliau gwrando, cyfathrebu a rhyngweithio'n well gyda phlant a theuluoedd; bod yn fwy dibynadwy, gonest a chywir; darparu gwasanaethau'n gynt (yn enwedig cael caniatâd i blant sy'n derbyn gofal gael cyfranogi mewn gweithgareddau), cynyddu amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnig ymarferwyr gwaith cymdeithasol, a gwella tryloywder wrth lunio polisiau. Er y gellid deall y byddai gweithwyr cymdeithasol yn newid o bryd i'w gilydd, roedd barn bendant y gallai awdurdodau lleol wneud mwy i leihau pa mor aml yr oedd gweithwyr yn newid a sicrhau bod y broses o newid drosodd yn fwy esmwyth. Mae'r nifer a atebodd gan ddefnyddio'r gair 'gwrando' yn drawiadol iawn ac mae'n adlewyrchu'r farn gyffredinol na ellir gwneud gwelliannau ond trwy roi mwy o ran i blant a phobl ifanc yn y penderfyniadau a wneir ar bob lefel yn y gwasanaeth.

Methodoleg

Casglwyd y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn o atebion manwl i arolwg gan 21 awdurdod lleol yng Nghymru; 75 o ffeiliau achos, yr oedd 37 ohonynt yn dangos canlyniadau da, a 7 oedd yn destun adolygiad achos manwl; cyfweiliadau gydag oddeutu 150 o ymarferwyr cymdeithasol; 40 rheolwr strategol mewn gwasanaethau cymdeithasol; ac aelodau etholedig ar draws y sbectrwm gwleidyddol; atebion a chyfweiliadau gydag oddeutu 30 o rieni a gofalwyr, a 120 o blant a phobl ifanc. Cynhaliwyd yr adolygiad dros dri chfnod.

Y cyfnod cyntaf oedd arolwg a anfonwyd at yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, oedd yn canolbwyntio ar werthuso a mesur ansawdd mewn gwasanaethau gwaith cymdeithasol ar gyfer plant mewn angen.

Gwaith maes oedd yr ail gyfnod, lle yr ymwelodd yr adolygiad ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol plant 7 o awdurdodau lleol a ddetholwyd o gwmpas Cymru. Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol hyn ddethol pump neu chwe achos oedd yn dangos canlyniadau da a sicrhawyd ar gyfer plant a phobl ifanc a detholodd yr adolygiad bump neu chwech achos arall ar hap i'w hadolygu. Adolygwyd yr achosion drwy ddarllen y ffeiliau achos, siarad â'r ymarferwyr oedd yn ymwneud â hwy a chyfweld y plant a'u teuluoedd. Roedd un achos ym mhob awdurdod lleol yn destun adolygiad achos manwl, lle y galwyd yr holl ymarferwyr o'r holl asiantaethau oedd wedi gweithio gyda'r teulu i gyfarfod gyda'r tîm adolygu, lle y buont yn adfyfrio uwchben eu hymarfer, a beth oedd yr elfennau allweddol o ran sicrhau canlyniadau da ar gyfer y plentyn a'r teulu. Bu'r tîm adolygu yn cyfweld grwpiau o ymarferwyr gwaith cymdeithasol, yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, uwch weithwyr cymdeithasol, a rheolwyr timau a swyddogion oedd yn adolygu. Buont hefyd yn cyfweld rheolwyr strategol ac aelodau etholedig.

Roedd trydydd cyfnod yr adolygiad yn cynnwys ymgynghoriad gyda phlant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol ar draws Cymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan Cognition Associates, a chymerodd ffurf cyfweiliadau unigol gyda phlant a phobl ifanc, grwpiau ffocws gyda phlant hŷn a phobl ifanc, a grwpiau ffocws gyda rhieni a gofalwyr.

Canolbwyntio ar Ganlyniadau:

I ddibenion yr adolygiad yma, fe wnaeth y tîm adolygu ddiffinio a gwerthuso pedwar canlyniad ar gyfer plant mewn angen:

Canlyniadau Diogelwch: Ystyr hyn yn ei hanfod yw bod y plentyn yn cael ei amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod (gan gynnwys niwed emosiynol o ganlyniad i drais domestig). Os cafodd ei gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol oherwydd ei fod yn dioddef o niwed neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, bod y gwaith a wnaed gan y gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn gyfrwng i roi terfyn ar y niwed neu i atal y niwed rhag digwydd. Mae hefyd yn cynnwys ffactorau diogelwch eraill megis hunan-niweidio, dianc, a manteisio rhywiol. Roedd yna ffocws ar y risg neu'r niwed penodol, a natur benodol y canlyniad a sicrhawyd.

Canlyniadau Iechyd: Mae hyn yn cyfeirio at y dangosyddion hybu iechyd a ddefnyddir gan y gwasanaeth iechyd ar gyfer iechyd plant. Mae'n cynnwys pigladau, archwiliadau iechyd, cyrraedd cerrig milltir iechyd, ac asesiadau iechyd priodol. Canolbwyntiai'r adolygiad ar y canlyniadau iechyd penodol a gafwyd.

Canlyniadau Addysg: Mae a wnelo hyn â chyrhaeddiad addysgol. Yn benodol, cyflawni asesiadau cyfnodau allweddol a TGAU. Gyda phlant iau mae'n ymwneud â chyrhaedd targedau'r blynyddoedd cynnar. Mewn rhai achosion roedd modd cael union gyraeddiadau'r plant yn y ffeiliau y buom yn edrych arnynt, ac mewn eraill, buom yn siarad â chynrychiolwyr ysgolion neu â'r plant a'u teuluoedd.

Ansawdd Bywyd: Mae a wnelo hyn yn ei hanfod â pha mor hapus yw plentyn gyda'i sefyllfa bresennol mewn bywyd. Mae hyn yn cynnwys ansawdd y gofal mae'n ei gael gartref, neu gyda gofalcwyr maeth; ei gyfeillion, ei hoff ddiddordebau, gweithgareddau allgyrsiol, a'i les emosiynol yn gyffredinol.

Modelau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol a welwyd wrth adolygu:

Arwyddion Diogelwch: Dull o amddiffyn plant yw Arwyddion Diogelwch sy'n seiliedig ar gryfderau ac wedi ei drefnu o amgylch diogelwch, a gafodd ei greu yng Ngorllewin Awstralia gan Andrew Turnell a Steve Edwards, oedd yn gweithio gyda thros 150 o ymarferwyr statudol rheng flaen. Am ragor o wybodaeth gwelwch eu gwefan, os gwelwch yn dda: www.signsofsafety.net

Therapi sy'n Canolbwyntio ar Ddatrysiadau: Cafodd Therapi sy'n Canolbwyntio ar Ddatrysiadau (SFBT), Therapi Ymarfer Adeiladu Datrysiadau, ei ddatblygu gan Steve de Shazer (1940-2005) ac Insoo Kim Berg (1934-2007) a'u cydweithwyr yn y 70au hwyr ym Milwaukee, Wisconsin. Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae'r SFBT yn canolbwyntio ar y dyfodol, yn anelu at nodau ac yn canolbwyntio ar atebion yn hytrach nag ar broblemau. Am ragor o wybodaeth gwelwch y wefan: www.solutionfocused.net

Ymarfer Adferol: Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar ddatrys gwrthdaro ar y cam cyntaf posibl, gan geisio osgoi gweld bai, a chynorthwyo pobl i gymryd cyfrifoldeb am ddod o hyd i ateb adeiladol i broblemau. Mae'n annog cyfathrebu effeithiol a gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol. Am ragor o wybodaeth gwelwch y wefan: www.transformingconflict.org

Holi Gwerthfawrogl: Dull o ddatrys problemau yw hwn a gafodd ei ddefnyddio i ddechrau gan David Cooperrider o Brifysgol Case Western Reserve yng nghanol yr 80au. Mae'n cael ei ddefnyddio gan un awdurdod lleol yng Nghymru fel offeryn sicrhau ansawdd, er mwyn annog gweithwyr cymdeithasol i feddwl yn feirniadol. Am ragor o wybodaeth gwelwch y wefan: www.appreciative-inquiry.co.uk

Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd: Gwasanaeth statudol yw GICD sy'n unigryw i Gymru. Mae'r GICD yn darparu ymyriadau wedi eu targedu at gynorthwyo plant a theuluoedd y mae camddefnyddio sylweddau wedi effeithio arnynt. Am ragor o wybodaeth gwelwch y wefan: www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/iftst

Tîm o Gwmpas y Teulu: Elfen yw hon o'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yng Nghymru, a'i nod yw darparu cefnogaeth gydlynol ac integredig, sy'n canolbwyntio ar deuluoedd yn eu cyfanrwydd drwy geisio adnabod problemau'n fuan ac ymyrryd yn briodol. Am ragor o wybodaeth gwelwch y wefan: www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/familiesfirst

Holi sy'n Codi Cymhelliant: Datblygwyd y dechneg hon yn wreiddiol gan y seicolegwyr clinigol, yr Athro William R Miller, Ph.D. a'r Athro Stephen Rollnick, Ph.D. Mae'n canolbwyntio ar archwilio a datrys deulioaeth teimlad ac mae'n canolbwyntio ar brosesau cymhelliant yn yr unigolyn sy'n hwyluso newid. Fe'i defnyddir gan lawer o Dimau Cymorth Integredig i Deuluoedd, ac mewn rhai awdurdodau lleol, gan weithwyr cymdeithasol mewn timau amddiffyn plant. Am ragor o wybodaeth, gwelwch y wefan: www.motivationalinterviewing.org

Atebolrwydd ar sail Canlyniadau: Datblygwyd Atebolrwydd ar sail Canlyniadau neu Atebolrwydd Canlyniadau yn UDA gan Mark Friedman. Mae'r model yn canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n golygu y caiff llwyddiant ei fesur yn ôl yr effaith, nid yn ôl lefel y gweithgarwch, ac mae'n fodel cydweithredol sy'n tynnu partneriaid allweddol at ei gilydd. Mae'n cael ei ddefnyddio'n gynyddol gan Lywodraeth Cymru, ac yn cael ei ddefnyddio fel dull o fesur ansawdd yn un adran gwasanaethau cymdeithasol plant o leiaf yng Nghymru. Am ragor o wybodaeth, gwelwch y wefan: www.wlga.gov.uk/past-events-documents/presentation-using-results-based-accountability-to-set-objectives

Model y Pedwar Safle: Fframwaith yw 'Model y Pedwar Safle' a ddatblygwyd gan y Dr David Thorpe a'r Dr Suzanne Regan ar gyfer rheoli'r drws ffrynt a chydlynu gwasanaethau amlasiantaethol. Y 'safleoedd' y cyfeirir atynt yn y model yw'r cyd-destun neu'r cyfarfodydd lle y mae plant agored i niwed a'u teuluoedd yn cael eu hadnabod fel rhai sydd mewn angen am ymateb ar y cyd gan asiantaethau. Am ragor o wybodaeth, gwelwch y wefan: www.cypswansea.co.uk

Diolchiadau:

Yr awdurdodau lleol a gymerodd ran yn y gwaith maes:

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Sir Ceredigion

Dinas a Sir Casnewydd

Cyngor Sir Torfaen

Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf

Dinas a Sir Abertawe

Y tîm adolygu:

Marya Shamte, Arolygydd AGGCC

Katy Young, Arolygydd AGGCC

Rhonwyn Dobbing, Arolygydd AGGCC sy'n derbyn tâl

Margaret Wearing, Arolygydd AGGCC sy'n derbyn tâl

Cheryl Beach, Arolygydd AGGCC sy'n derbyn tâl

Sheila Booth, Arolygydd AGGCC sy'n derbyn tâl

Angela Mortimer, Rheolwr Ardal AGGCC

Marc Roberts, Rheolwr Ardal AGGCC

Gillian Huws John, Rheolwr Ardal AGGCC

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd gan Cognition Associates.

Hoffai AGGCC ddiolch i'r plant, y bobl ifanc a'r aelodau o'u teuluoedd a siaradodd am eu profiadau ac a gyfrannodd i'r adolygiad hwn.